www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO’r Wyddfa

£1
RHIF 519
Ionawr
2024

# Blwyddyn Newydd Dda
## (ond hen stori gyfarwydd)



Fel oedd yr Eco yn barod i fynd i’r wasg fe glywsom fod hen stori o 2023 yn codi ei phen eto - cais cynllunio ar gyfer hen gartref gofal Y Foelas yn Llanrug.

Fis Mai 2023 bu cryn gynnwrf yn y pentref pan ddaeth yr wybodaeth i’r fei am gais cynllunio i drawsnewid Y Foelas yn dŷ amlddeiliadaeth (HMO) i gartrefu 17 o weithwyr tymhorol yn y sector twristiaeth.

Gwrthodwyd y cais gan Cyngor Gwynedd ar 26ain Mai gan roi’r rhesymau canlynol - dim digon o wybodaeth am y gallu i barhau i gynnal busnes ar y safle a sut y byddai yn cael ei farchnata; diffyg gwybodaeth am faint o unigolion fyddai’n cael eu cartrefu yno ac felly dim digon o wybodaeth am yr effaith ar sŵn i drigolion lleol; dim darpariaeth ddigonol o lefydd parcio; diffyg gwybodaeth am yr effaith ar yr iaith Gymraeg.

Coeliwch neu beidio ond mae’r cais wedi ei ail-gyflwyno heb fawr o newidiadau ar ddiwedd mis Tachwedd, ac felly mae’r gymuned yn Llanrug unwaith eto yn frwd i rannu eu gwrthwynebiad. Mae petisiwn wedi agor ar change.org sy’n brysur hel enwau. Mae sylwadau swyddogion Cyngor Gwynedd ar y cais newydd eisoes yn eithaf negyddol - e.e mae’r cynlluniau yn dal i ddangos 17 stafell wely er bod y cais yn honni mai 13 unigolyn fydd yn aros yno, pryder am ddiffyg llefydd parcio ayb.

Roedd y cais gwreiddiol yn honni y byddai Foelas yn gallu cartrefu gweithwyr ym mhentref gwyliau Trawsfynydd, ond eto’n disgwyl na fyddai gan fwy na 8 o’r trigolion gar! Mae taith fws o Lanrug i Drawsfynydd yn cymryd 2 awr 28 munud, a fedrwch chi ddim cyrraedd Trawsfynydd cyn 10.30 y bore. Pob lwc i unrhyw un sy’n gweithio oriau hir neu anghymdeithasol wrth drio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i deithio o amgylch y sir!

Does yna fawr o wybodaeth chwaith ynghylch y perchennog, ac mae’r ddau gais cynllunio wedi eu cyflwyno drwy ddau asiant gwahanol, ill dau wedi eu lleoli yn Llundain. SAM Planning Services ydi’r asiant diweddaraf, ac ar eu gwefan maent y datgan *“We are personally invested and passionate about every project we take on. We will fight for you until your planning is approved, and we don’t charge for resubmissions.”* Tybed sawl gwaith y byddant yn fodlon cyflwyno cais cyn rhoi’r ffidil yn y to?



## Elin Enfys

### Chwilio am Elin Enfys

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi’n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



## Yn y rhifyn hwn:


- Buddug yn rhyddau record newydd sbon - tud 13
- Apêl yr Urdd i helpu gyda chost gwyliau - tud 18
- Eisteddfodau Nadoligaidd - tud 24
- Tîm pêl-droed Ysgol Bethel yn cynrychioli gogledd Cymru - tud 16
- Cwis chwaraeon - tud 25

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
** Swydd y golygydd yn wag ar hyn o bryd

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys – marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees, Cae Corniog Bach,
Penisarwaun
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk



## Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

| | |
|---|---|
| £50 | Deilwen Hughes er cof am ei diweddar ŵr J Elwyn Hughes |
| £20 | Er cof annwyl iawn am Emma Bernard gan y teulu |
| £20 | Er cof am Wavell Roberts oddi wrth Elizabeth a'r teulu |
| £20 | Er cof am Elwyn Jones, Penisarwaun a Llanberis gynt oddiwrth ei deulu |
| £20 | Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa, Penisarwaun |
| £10 | Gloria, Rhydfadog |
| £10 | Elizabeth Evans, Pen Parc, Bethel |
| £5 | Rita Williams, Elan, Bethel |

## Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Gwin**. Ffrainc yw cynhyrchydd gwin mwyaf y byd eleni, a hynny am fod gwinllannau'r Eidal wedi dioddef o ganlyniad i dywydd eithafol ac afiechydon ffwng. Er hynny, mae disgwyl i gyfanswm gwinoedd y byd ddisgyn i'r lefel isaf ers 60 mlynedd.
- **Echidna**. Cafodd yr anifail sy'n cael ei alw'n '*Attenborough's long-beaked echidna*' ei ddarganfod am y tro cyntaf ers dros 60 mlynedd ym Mynyddoedd Cyclops, Indonesia. Credai llawer ei fod wedi marw allan nes iddo gael ei ffilmio'r mis diwethaf. Mae'n cael ei ddisgrifio fel anifail gyda phigau draenog, trwyn bwytawr morgrug a thraed twrch daear.
- **Llifogydd.** Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi disgrifio llifogydd fel y rhai sydd wedi taro Somalia fel digwyddiad unwaith mewn can mlynedd. Mae niferoedd wedi eu lladd a 300,000 wedi gorfod gadael eu cartrefi.
- **Redonda**. Ynys ym Môr Caribi sydd wedi ei hail-eni. Fe'i difethwyd ym 1865 gan bla o 6,000 o lygod mawr du a geifr. Cyflwynwyd y llygod ar ddamwain a'r geifr yn fwriadol gan fwynwyr o Ewrop. Gadawodd pobl yr ynys ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Lladdwyd yr holl dyfiant gan y llygod a'r geifr. Yn 2016 dechreuwyd ar y gwaith o adfer yr ynys. Gwenwynwyd yr holl lygod a chariwyd y geifr oddi yno – a gadael i Natur gymryd ei gwrs. Roedd gwyrddni yn ôl mor gynnar â 2017. Mae bellach 19 math gwahanol o adar yn nythu yno a chynnydd sylweddol mewn madfall du prin eithriadol. Rhaid i bob bod dynol olchi eu hesgidiau os cânt ganiatad i lanio yno.
- **Llyffant dafadennog.** Mae gwyddonwyr yn methu dirnad o ble daeth y creadur gyda bysedd tew a bodiau miniog, sydd wedi ymddangos yn ddiweddar, a byw ar lethrau llosgfynydd (nas enwir) yn Kenya.
- **Pêl-droed**. Pepe, chwaraewr o Bortiwgal sy'n 40 oed, yw'r chwaraewr hynaf i sgorio gôl mewn gêm yng Nghynghrair y Pencampwyr.
- **Plastig.** Mewn cynhadledd ryngwladol yn Nairobi, galwyd ar holl wledydd y byd i ddod i gytundeb i atal llygredd plastig. Mae dros 400 miliwn tunnell o blastig yn wastraff bob blwyddyn – a llai na 10% ohono'n cael ei ail-gylchu.
- **Protest.** Mae clymblaid o bobloedd cynhenid Panama yn parhau i atal trafnidiaeth ar rai o brif ffyrdd y wlad mewn protest yn erbyn cwmni o Ganada sydd wedi cael hawl i fwyngloddio am gopr gan lywodraeth y wlad. Honnir fod aelodau blaenllaw o'r llywodraeth wedi eu llwgrwobrwyo gan y cwmni.
- **Grindavik.** Y dref yng Ngwlad yr Iâ sydd mewn perygl oherwydd gweithgaredd folcanig; a'r mwyafrif o'r boblogaeth wedi eu symud oddi yno. Mae dros 1,000 o fân dirgryniadau wedi eu cofnodi yno, ond credir bellach na fydd llosgfynydd yn echdorri gan fod y dirgryniadau wedi lleihau. Er hynny, ni chaiff y trigolion ddychwelyd rhag ofn fod sylfeini adeiladau yno wedi eu gwanhau.
- **Parc.** Cyhoeddwyd fod trafodaethau ac ymgynghoriad i'w cynnal i benderfynu os oes angen sefydlu Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru. Byddai'r Parc arfaethedig yn ymestyn o Lyn Fyrnwy ym Mhowys i Dalacre ar arfordir y gogledd.
- **A23a**. Mae mynydd iâ yn Antarctica wedi dechrau symud unwaith yn rhagor. Mae'r mynydd iâ tua 1,500 milltir sgwâr (tua dwywaith arwynebedd Llundain), a dechreuodd arnofio am y tro cyntaf ers tri degawd. Torrodd yn rhydd o'r prif len iâ ym 1986, ond aeth ei waelod yn sownd ar lawr Môr Waddell. Mae'n ymddangos ei fod wedi torri'n rhydd ac yn symud heibio i begwn gogleddol yr Antarctica ar hyn o bryd. Mae gwyddonwyr yn gwylio'i gyfeiriad yn ofalus.
- **Crwban Môr**. Mae saith math gwahanol, a phob un ohonynt dan fygythiad. Ond eleni cafwyd rhywfaint o newydd da. Mae cynnydd am y tro cyntaf ers 2016 yn y nifer sy'n 'nythu' ar draethau Florida. Dyma'r nifer uchaf erioed i'w gofnodi. Gwelwyd cynnydd hefyd yn y niferoedd ar draethau Gogledd a De Carolina, Alabama a Georgia.
- **Cynddeiriog.** Mae cynllun wedi ei lansio yn Nigeria i reoli llid a chynddeiriogrwydd. Am tua £7.00 caiff person logi gordd ac ystafell yn llawn o hen ddodrefn, gwydr ac offer trydan ac electroneg di-werth – a chael gwared â'u tymer ddrwg drwy eu malurio i gyd!
- **Scrabble.** Mae fersiwn newydd o'r gêm boblogaidd ar werth cyn y Nadolig – yn yr iaith Gaeleg. Mae'n cynnwys 18 o lythrennau'n unig, gan nad oes J, K, Q, W, X, Y,na Z yn yr wyddor.

## Dyddiadau i'w cofio…

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Chwefror | 12 Ionawr | 26 Ionawr |
| Mawrth | 9 Chwefror | 23 Chwefror |
| Ebrill | 8 Mawrth | 22 Mawrth |

# Pleidleisiwch dros Enlli!

Mae Enlli Garton Jones, prentis ifanc talentog o Lanrug, wedi'i henwebu yn y categori Cyfrifeg yng Ngwobrau Prentisiaeth Grŵp Llandrillo Menai 2024.



Ymunodd Enlli gyda Chyngor Gwynedd yn 2022 fel prentis cyllid, ac mewn blwyddyn yn unig mae taith Enlli o brentis newydd i aelod gwerthfawr iawn o'r tîm yn un o ddatblygiad personol a phroffesiynol.

Daeth ei hymroddiad i'w swydd â hi i sylw trefnwyr y wobr flynyddol sy'n dathlu llwyddiant prentisiaid ym mhob fath o feysydd, o gyfrifeg i letygarwch i ddiwydiannau'r tir.

Mae Enlli yn un o dri sydd wedi eu henwebu yn y categori 'cyfrifeg' felly os hoffech bleidleisio dros Enlli er mwyn iddi ennill y categori, ac efallai ennill Prentis y Flwyddyn, ewch i - awards/gllm.ac.uk/cy

Dywedodd y Cynghorydd Menna Trenholme, aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n arwain ar faterion datblygu talent:

"Llongyfarchiadau mawr i Enlli ar gael ei henwebu yng Ngwobrau Prentisiaeth Grŵp Llandrillo Menai 2024.

"Ers dechrau ei Phrentisiaeth Cyllid gyda Chyngor Gwynedd yn 2022, mae Enlli, gyda chefnogaeth ei chydweithwyr, wedi croesawu cyfrifoldebau newydd yn frwd sydd wedi dyfnhau ei dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen yn ei maes.

"Ym mis Mawrth ddaru hi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y Ffair Swyddi Prentisiaethau, gyda'i sgiliau cyflwyno gwych a'i chyfarwyddyd defnyddiol i brentisiaid newydd wedi cael effaith barhaol ac ysbrydoledig ar dalentau'r dyfodol.

"Rydym yn falch fel Cyngor i allu helpu meithrin a datblygu talent yma yng Ngwynedd drwy ein cynllun prentisiaethau a graddedigion, sy'n cynnig cyfle i bobl cael profiad gwaith gwerthfawr ac i ennill cymwysterau yr un pryd."

Dywedodd Aron John Llewelyn, Uwch Gyfrifydd a rheolwr llinell Enlli:

"Fel rheolwr llinell Enlli rwy'n cefnogi'n gryf ei henwebiad ar gyfer prentis y flwyddyn. Does dim dwywaith ei bod hi'n deilwng o ennill y wobr. Mae ei haeddfedrwydd a'i pharodrwydd i ddysgu ynghyd â'i phersonoliaeth wedi sefyll allan yn ystod ei blwyddyn ym myd Cyllid."

Llongyfarchiadau ar dy enwebiad Enlli, a phob lwc!

# Ceiliogod Llanrug yn clwydo

Ddeugain mlynedd yn ôl ym mis Rhagfyr 1983 darlledwyd y rhaglen radio boblogaidd 'Talwrn y Beirdd' – ac ymddangosiad cyntaf Tim Llanrug yn y gystadleuaeth. Fe'i recordiwyd yn neuadd Ysgol Gynradd Llanrug, a'r gwrthwynebwyr oedd Tim Dolgellau. Peidiodd y tim hwnnw â bod ers blynyddoedd bellach, ac eleni mae Tim Llanrug wedi penderfynu cau pen y mwdwl hefyd. Bu sawl un yn aelod o'r tim, ond gan mai fi yw'r unig un sydd wedi bod yn ddigon gwirion i barhau gyda'r tim am y deugain mlynedd, gofynnwyd i mi grynhoi hynt a helynt y cyfnod hwnnw.

Cyfartal oedd y sgôr yn yr ornest gyntaf honno ddeugain mlynedd yn ôl – 45 marc a hanner yr un. Roedd y system sgorio'n wahanol bryd hynny, ac nid marc allan o ddeg a gai'r beirdd. Tim Llanrug yn eu blwyddyn gyntaf oedd Len Jones, Twrog Jones, Rhys Parri, Glyn Parry, John Roberts a Dafydd Whiteside Thomas. Dros y blynyddoedd bu cryn fynd a dod: Tony Elliott, Iwan Roberts, Harri Jones, Iolo Huws Roberts a dau brifardd – Selwyn Griffith a Hilma Lloyd Edwards. Gadael fu hanes pob un ohonynt, ond yn y blynyddoedd diwethaf ymunodd Richard Lloyd Jones a Dafydd Williams (y ddau o Fethel), ac ail-ymunodd Iwan Roberts a John Roberts. Maddeuant os gwelwch yn dda os anghofiais gynnwys unrhyw un arall.

O gyrraedd y brig, does ond un cyfeiriad wedyn, ac ar i lawr yw hynny. Dyna, mae'n debyg, fu hanes Tim Llanrug. Yn y flwyddyn gyntaf fe gyrhaeddodd y ffeinal. Ond rwy'n siwr nad y ffeinal – yn Ninas Dinlle o bobman – sy'n aros yn y cof, ond y fuddugoliaeth yn y rownd gyn-derfynol, a'r daith bellaf y bu'n rhaid ei gwneud yn holl hanes y cystadlu. Do, bu'n rhaid teithio'r holl ffordd i Bantperthog, a wynebu tim Crannog; tim oedd yn cynnwys y prifardd Dic Jones. Doedd bosib y byddem yn ennill. Ond dyna wnaethpwyd. Ac mae'n bosib i'r tim osod record arbennig y noson honno hefyd, a chael marciau llawn am un dasg. Does dim yn anarferol yn hynny, ond fe gafodd Tim Llanrug farciau llawn am dri gair yn unig, ac un o'r rheini yn air Saesneg. Y dasg oedd cyfansoddi pennill dychan ar y testun 'Gwydr Dwbl'. Bron na allaf honni mai'r canlynol enillodd y gystadleuaeth:

*"Os daw fy nghariad i yma heno*  
*I guro'r gwydr glass*  
*Chlywa'i mo'ni."*

Ar y ffordd adref am Lanrug wedi'r gystadleuaeth, aros yn nhafarn Ty'n y Groes yn y Ganllwyd, a mwynhau ail drafod y fuddugoliaeth. A chlywed un o ddau wrth y bar yn holi 'Pwy oedd rheina?' A'r llall yn ateb: 'O, beirdd ydyn nhw!'. Roedd y tim wedi cyrraedd yr uchelfannau!!!

Ond colli fu ein hanes yn y ffeinal, i feirdd Bro Alaw, Môn. A buom yn cystadlu yn erbyn ein gilydd bron yn flynyddol wedi hynny, a dod yn elynion cyfeillgar. Fe gawsom dalu'r pwyth rai blynyddoedd yn ddiweddarach mewn ffeinal a drefnwyd fel rhan o Eisteddfod Môn.

Mae'n debyg mai'r penillion dychan oedd nodwedd y tim. Rwyf bron yn sicr i farciau llawn gael eu rhoi am y pennill canlynol gyda'r testun 'Dim parcio' :

*"Hon yw dreif y dyn stîm rolar;*  
*Paid a pharcio o flaen fy fflat*  
*Neu mi fyddi di."*

A beth am hwn yn 'Rhybudd ar gefn cerbyd':

*"Cadw dy bellter, dyna yw'r wers,*  
*Ac os na wnei di byddi yn fy hers."*

Bu trafferthion hefyd. Yn 1992, a hithau'n Etholiad Cyffredinol, cafodd recordiad o gynnyrch Llanrug ei ohirio am dair wythnos nes i'r Etholiad fynd heibio, a hynny oherwydd fod cyfeiriad at wleidyddion yn rhai o'r penillion. Roedd y BBC yn mynnu na ddylai cyfeiriad at wleidyddiaeth gael ei ddarlledu yn ystod etholiad. Ymhlith cynnyrch Llanrug roedd cyfeiriadau at Ken Clarke, David Hunt a Wyn Roberts – Ceidwadwyr i gyd yn digwydd bod. A Chadeirydd presennol yr 'Eco' oedd un o'r pechaduriaid pan gyfansoddodd y cwpled caeth hwn:

*"Doethur y geiriau dethol;*  
*Hirben yw – drwy ei ben-ôl."*

Mae'r un mor wir heddiw. Cewch chwi roi enw unrhyw wleidydd sy'n ffitio'r disgrifiad.

Am y mwyafrif o'r deugain mlynedd, Tim Llanrug oedd yn cynrychioli bro'r 'Eco'. Ond ym 1986 mynnodd y Waunfawr roi cynnig arni. Deifiol oedd sylwadau Draenog yn yr 'Eco' – *"Bobol annwyl! Ac i feddwl y bydd yn rhaid i ni orfod dioddef darllen cynnyrch DAU dim o'r fro o hyn ymlaen".* A dioddef darllen cynnyrch y ddau dim fu'n rhaid i'r darllenwyr ei wneud am rai blynyddoedd nes i dim y Waunfawr roi'r gorau iddi. A bu Llanrug, chwarae teg iddynt, yn ddigon hirben i beidio anfon eu cynnyrch i'w gynnwys yn yr 'Eco' dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae llawer mwy i'w adrodd, ac mae'n siwr fod gan y gwahanol aelodau eu hatgofion personol am wahanol ornestau a gwahanol gynnyrch y Talwrn. Does gen i ddim ond diolch am y gwmniaeth; am y llon a'r lleddf, ac am ddeugain mlynedd o gyfeillgarwch.

**Dafydd Whiteside Thomas**

# DEINIOLEN

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Dion a Richard. Roedd trigolion Deiniolen wedi ethol y ddau am eu gwaith di flino i'r gymuned. Diolch o galon i chi eich dau am eich holl waith, roedd yn hyfryd gweld eich lluniau ar glawr yr Eco yn y rhifyn diwethaf (Rhagfyr).




**Bwrdd Rheoli 'Pwyllgor Pentra Deiniolen'**
Mae Bwrdd Rheoli 'Pwyllgor Pentra Deiniolen' ynghyd â gwirfoddolwyr eraill wedi bod yn brysur yn ceisio datblygu gwasanaethau a phrosiectau i drigolion Deiniolen ers tua 4 blynedd erbyn hyn.

Derbyniwyd grant Croeso Cynnes £5,000 gan Gyngor Gwynedd ac yna gan Gronfa Cymuneol y Loteri am £10,000 yn 2023. Galluogodd hyn i'r Pwyllgor gyflogi Heddwen Rees Williams fel Cydlynydd, rhan amser, i arwain ar rhai o'r prosiectau. Mae Heddwen wedi bod yn brysur yn trefnu clwb paned a sgwrs, sesiynau meddylgarwch, bingo, noson ffilm, parti calan gaeaf a sesiynau celf a chrefft i enwi dim ond rhai.

Bu'r Pwyllgor yn llwyddiannus hefyd i dderbyn grant arall £10,000 o gronfa CIST Gwynedd i gomisiynu Pensaer i ddarparu cynlluniau, adroddiad a chostau datblygu adeilad Yr Hen Lyfrgell Deiniolen, sydd bellach yn nwylo perchennog preifat lleol. Y weledigaeth yw gwireddu dymuniadau trigolion y pentref yn dilyn nifer o ymgynghoriadau sydd yn nodi'r angen i gael canolfan i bawb o'r pentref. Bydd yn fan i gyfarfod, i ddarparu cefnogaeth, rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ac i gynnal clybiau amrywiol i bawb. Nid oes unman yn y Pentref i ddod a'r gymuned ynghyd na chwaith unman i blant a'n pobl ifanc ni gwrdd gyda'r hwyr.

Mae'r Pwyllgor yn y broses o gofrestru fel Cwmni annibynnol, a'r dyhead yw datblygu ceisiadau am arian i brynu'r Hen Lyfrgell a'i ddatblygu fel gofod cymunedol i bobl Deiniolen. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn trefnu noson agored ddechrau'r flwyddyn i rannu'r cynlluniau gyda phawb.

Yn y cyfamser os oes gan rywun ddiddordeb mewn gwybod mwy, neu'n dymuno cynorthwyo gyda'r gwaith enfawr o godi arian i wireddu hyn, cysylltwch gyda Chadeirydd y Pwyllgor sef Lyndsey Pleming ar lvparry123@aol.com

Dyma rai o aelodau'r Bwrdd fu'n paratoi paned, siocled poeth a theisennau yng Nghaffi EB yn ystod noson Ffair Nadolig yn y pentref ar yr ail o Ragfyr.



**Merched y Wawr Deiniolen**
Ar nos Lun 20fed Tachwedd cawsom ni gwmni Heddwen Rees-Williams o Ddeiniolen, sydd hefyd, yn ogystal â'i gwaith yn cynnal sesiynau caffi cymunedol E.B ac yn aelod o bwyllgor yr Ŵyl yn y pentre, yn rhedeg cwmni gwneud canhwyllau amrywiol o'r enw 'Scent my Love'. Roedd o'n gyfle da i wneud ychydig o siopau Nadolig. Diolch Heddwen.

Cafwyd parti Nadolig eleni yn Nhafarn yr Afr, Glandwyfach. Roedd y bwyd yn fendigedig a phawb wedi eu plesio. Diolchwyd unwaith eto i Jackie am yr holl waith trefnu.

Bu cyfnewid anrhegion gan Siôn Corn Cudd, a chafwyd hwyl fawr yn dyfalu.

Byddwn yn ail ddechrau nos Lun 16eg o Ionawr am 7 PM yn Nhŷ Elidir, gyda Gwyn Roberts, yn sôn am y Tîm Achub Mynydd.

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

# Pererindod dros Heddwch

Un o Waunfawr ydy'r Parchg Nan Wyn Powell-Davies, Yr Wyddgrug, ac yn ogystal â chyd-weinidogaethu â'i gŵr Huw yng Nghapel Bethesda yn y dref honno, hi bellach yw Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dros y blynyddoedd, bu Nan hefyd yn gefnogol iawn i waith Cymorth Cristnogol mewn amrywiol ffyrdd, gan gyfuno fwy nag unwaith ei hoffter o gerdded a'i baich dros godi arian er budd yr elusen sy'n cefnogi pobl sy'n dioddef mewn llu o wledydd ac amrywiol amgylchiadau ar draws y byd.

Yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr, o ddydd Llun y 4ydd hyd ddydd Gwener yr 8fed, roedd Nan yn cerdded ar hyd Llwybr y Pererinion, o Fangor i Aberdaron yng nghwmni'r Parchg Andrew Sully o'r Eglwys yng Nghymru, gyda chyfeillion eraill yn ymuno â hwy ar wahanol rannau o'r daith. Trefnwyd 'Pererindod dros Heddwch' ar ddechrau cyfnod yr Adfent er mwyn tynnu sylw at yr angen am gymod a heddwch yn Gaza ac Israel. Yn ystod y daith, cafwyd cyfle i gyfarfod â rhai o gefnogwyr Cymorth Cristnogol yn y gwahanol ardaloedd.

Aeth diwrnod cyntaf y daith â nhw o Fangor i Lanberis, a chafwyd cyfle i groesawu Nan a Huw ynghyd â Llinos Roberts, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymorth Cristnogol i Eglwys Sant Padarn y noson honno. Wedi darllen o Efengyl Luc yr hanes cyfarwydd am y bugeiliaid a'r angylion, soniodd Nan am bwrpas y daith a'r angen sydd yn ein byd heddiw am y Tywysog Tangnefedd a ddaeth atom yn y baban y clywodd y bugeiliaid amdano: yr Iesu a anwyd ym Methlehem. Cafwyd cyfle i ganu dwy garol gyda'n gilydd cyn gorffen y cyfarfod mewn gweddi.

Cyn ymadael, roedd cyfle i wneud un peth arall. Gwahoddwyd ni i godi darn bach o
















**Ffair Nadolig**

Cynhaliwyd Ffair Nadolig ddydd Sadwrn yr 2ail o Ragfyr rhwng 2PM a 7PM yn y pentref. Er gwaetha'r tywydd oer a gwlyb roedd llawer o oedolion a phlant wedi troi allan i fwynhau'r amrywiol stondinau yn Nhŷ Elidir a llawer o blant wedi mwynhau cael sgwrs efo Siôn Corn.

Trefnwyd Raffl Hamper Nadolig ac fe gaiff yr enillydd lwcus ginio Nadolig bendigedig!

Roedd Seindorf Arian Deiniolen yn chwarae, gwin poeth i'ch cynhesu neu gyfle i fochel rhag y glaw a chael paned a sgwrs yng nghaffi EB gyda chyfle i'r plant wneud crefftau. Roedd cyfle i gael bwyd poeth gan Pizza Llan ac wrth gwrs yn goron ar y noson roedd brenhines Carnifal Deiniolen yn troi'r goleuadau stryd ymlaen yn y pentref am 7 o'r gloch. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi ac i griw Gŵyl Deiniolen a'r Cylch am drefnu.









**Neges gan y Cynghorydd Elfed Williams**

Blwyddyn newydd dda i holl drigolion y ward.

Yn ddiweddar cefais gyfarfod gydag Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor, i drafod problemau yn ward Deiniolen. Gobeithio yn fawr y daw gweithredu gan y Cyngor yn y flwyddyn newydd i'r materion pwysig a gafodd eu trafod. Byddaf yn eich diweddaru pan fyddaf yn derbyn unrhyw wybodaeth bellach.

Cyflwynwyd deiseb, gyda tua 130 o lofnodion, y rhan fwyaf ohonynt yn rieni plant ysgol Gwaun Gynfi, i swyddogion perthnasol y cyngor. Roedd y ddeiseb yn tynnu sylw'r Cyngor at y problemau parcio o gwmpas yr ysgol. Gobeithio yn fawr y cawn weld y newid sydd ei angen yn cael ei weithredu.

Diolch hefyd i bawb fu yn helpu cynnal gweithgareddau dros y Nadolig yn y pentref, braf ydi gweld cymaint yn mynd ymlaen. Diolch.

bapur o fasged lawn, ac ar bob papur roedd enw ac oedran un o'r plant a laddwyd yn Gaza ac Israel dros y ddeufis blaenorol ers i wladwriaeth Israel gyhoeddi rhyfel yn dilyn ymosodiad ciaidd mudiad Hamas ar Israeliaid ar Hydref 7fed. Gwahoddwyd i ni hefyd i ysgrifennu ar ddarn o frethyn enw ac oedran y plentyn. Bwriedir erbyn diwedd y daith gofnodi enwau'r holl blant a laddwyd y gwyddys eu henwau. Gallwch ddychmygu y bydd gweld yr enwau hynny'n ddigon i sobreiddio pawb.

Roedd cyfle hefyd i gyfrannu at waith Cymorth Cristnogol. Mae modd cefnogi'r Bererindod a gwaith Cymorth Cristnogol trwy wefan 'JustGiving' (Chwiliwch am 'Pererindod dros Heddwch' ar y wefan).

Diolch am y croeso a gafwyd yn yr Eglwys.


Croesawu Nan (ar y chwith) a Llinos (ar y dde)

## BETHEL A SEION

**APÊL**


Gyda dyddiad derbyn cynnyrch mor fuan ni fydd yn bosibl i roddi sylw manwl i sawl digwyddiad 'Nadoligaidd' y tro hwn. Serch hynny, mae'r Ŵyl yn rhoddi cyfle i sawl un gymdeithasu. Mae hyn yn wir am ein cymdeithasau, clybiau a mudiadau lleol. Mae hefyd yn gyfle i uno mewn ambell i ddigwyddiad crefyddol. Fe fydd y Clwb Bro wedi cynnal eu Cinio Nadolig a chynnal eu Gwasanaeth Nadolig. Bydd Merched y Wawr hefyd wedi cynnal eu cinio Nadolig. Bydd Gwasanaethau Carolau wedi eu cynnal yn Eglwys Llanddeiniolen ac yn y Cysegr. Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul hefyd. Ar fore Nadolig ceir gwasanaeth Cymun Undebol yn y Cysegr am 9.30am (SYLWER NID 10am.) Gweinyddir gan y Parch. Nerys Griffiths. Mae ambell i weithgaredd yn y Caffi Cymunedol. A fydd Siôn Corn yn ymweld? Beth am y tywydd? A ddaw'r eira? Cynllun Ffenestri Adfent. Y rhai sy'n goleuo eu tai? A'r digwyddiad annisgwyl? Digon o gyfleoedd i dynnu lluniau i'w rhoi ar gof a chadw. Onid hyn yw prif amcan Papur Bro.

Fy apêl felly yw i chwi gadw'r camera/ ffôn symudol yn agos. Tynnwch luniau a'u danfon i mi ar e-bost. Bydd modd wedyn i gynnwys oriel yn darlunio dathliad Nadolig ym Methel mewn sawl ffordd.

Cofiwch rannu'r apêl yma i gyfeillion nad ydynt yn derbyn yr Eco yn rheolaidd. Papur Pawb yw'r Eco!

**CYDNABOD**

Dymuna Mabel, Gerwyn, Euron, Llion, Gwenan ac Emyr, teulu'r diweddar Thomas Alun Jones ddatgan eu diolch diffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.




**Cynghorydd Sir Bethel a'r Felinheli**

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen ac iach i bawb. Gobeithio bydd cyfle i chi ymlacio a threulio amser gyda'ch anwyliaid dros yr wŷl.

Dyma fy manylion os ydach chi am gysylltu efo fi;

Cynghorydd.sashawilliams@gwynedd.llyw.cymru

07810174160

*Sasha Williams*



**ADRAN YR URDD**

Ar nos Wener,20fed o Dachwedd, o dan ofal Eleri, cafwyd noson o Yoga yn y Neuadd Bentref a phawb wedi mwynhau yn arw. Diolch o galon i ti Eleri.

Ar ddydd Sadwrn,16eg o Ragfyr bydd criw o'r aelodau yn mynd i'r Galeri i wylio'r ffilm Wish.

**COLLED**

Diwedd Tachwedd daeth y newyddion am farwolaeth Margaret Williams, Tŷ Capel Cysegr gynt, yn 90 oed. Wedi iddi symud i Bro Rhos, collodd ei mab Philip, 7 mlynedd yn ôl bellach. Fe symudodd i fyw i Sandbach, Swydd Caer ble roedd y meibion eraill, Robert a Steven, a'u teuluoedd yn byw. Claddwyd Dafydd, ei gŵr, draw yn Llangaffo, Môn, ble hanai ei deulu ohonno, ac mae'n debyg mai yno bydd angladd Margaret. Cofiwn wraig hwyliog, barod ei chymwynas, a chydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

**SYNIAD**

Rydym i gyd yn dwyn syniadau pobl eraill bob hyn a hyn. Dyma un syniad a glywais gan bwyllgorddyn Papur Bro yn y De. Roeddent wedi derbyn 5 cais i ddefnyddio'r Papur Bro fel anrheg Nadolig. Yr anrheg oedd talu cost y papur am flwyddyn dros ffrindiau ( yn achos yr Eco £10). Yma ym Methel mae'r gwerthiant ar gynnydd. Cofiwch fod pawb sy'n archebu'r Eco ym Methel yn ei gael ar stepan y drws. Mae ar gael hefyd yn Caffi'r Bedol. Os ydych am wneud defnydd o'r syniad yna rhowch enw'r derbynydd i mi (ynghyd a £10) ac fe fyddaf i neu un o'r casglwyr yn ei ddanfon yn brydlon.

Cymeraf y cyfle i ddiolch ar eich rhan i Dafydd a Llinos, Seiriol a Bet, Gwilym a Sheila, ac Elen a Gwynfor am eu gwasanaeth fel dosbarthwyr ffyddlon.

**LLONGYFARCHIADAU**

Enillwyd Tlws Pêl-droed Ysgolion Cynradd Gwynedd gan Ysgol Bethel. Chwaraewyd y gystadleuaeth ar faes pob-tywydd Treborth. Llawer o ddiolch i Tom Lawson am roi o'i amser i reoli a hyfforddi'r tîm. Bydd y tîm yn symud ymlaen i gynrychioli Gwynedd yn y gystadleuaeth 'genedlaethol' yn Aberystwyth. Dymuniadau gorau.

**OEDFAON IONAWR 2024**

**Bethel**: 21/1 Parch. Cledwyn Williams
**Y Cysegr** : 7/1 Parch. John Pritchard 14/1 Gweinidog ( Cymun) 21/1 Undebol am 10AM yn Saron., 28/1 Glenys Jones

**GOLEUO'R NADOLIG**

Mae'n siwr bod nifer ohonoch yn dilyn gwefan Cymuned Bethel ar Facebook. Ceir amrywiaeth eang arno o'r hysbyseb i'r adroddiad o wahanol ddigwyddiadau. Fe'm hatgoffir yn feunyddiol o ddau o hen 'gwynion' y pentref sef baw cŵn a gor-gyflymder moduron. Yn sicr mae'n cryfhau'r syniad o un gymuned yn cyd-dynnu. Daliodd un sylw 'di-enw' fy llygaid yn ddiweddar. Ymdrin oedd y cyfranwr at syniad arall fuasai yn cryfhau'r elfen gymdeithasol. Mae yn syniad sydd wedi cydio mewn sawl man yn barod. Y cynnig yw cael coeden Nadolig, yna'i hardduno, ac yna cael noson benodol i oleuo'r goeden. Rwy'n siwr buasai llawer yn cytuno â'r syniad a gweld cyfle o ddenu pentref at ei gilydd. Ond pwy drefnith? Lleoliad, cyfarpar, gwarchod, dyddiad, dathliad…. Dyma faes trafod i ni yn y dyfodol. Gobeithio y bydd rhai yn gallu taflu rhywfaint o oleuni ar y mater, ac y gwelwn gychwyn oleuedig gymdeithasol y Nadolig nesaf.

**DYMUNIAD**

Nadolig Llawen i chwi deuluoedd y pentref arbennig yma. Boed i seren yr Ŵyl aros uwchben yr ardal a chysuro pob un ohonom. Dyma eiriau'r diweddar Brifardd Dic Jones.

**NADOLIG**

Seinier y neges yn nhai'r enwogion,
Boed llawenydd ar aelwydydd tlodion,
Caffed plant gofal, a'r trwm o galon
Eli rhinweddol yr hen newyddion.
Tawer llid ein trallodion – a'n casâu
A sain carolau dros ein cwerylon.

# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur – Rhan 21

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros ddwy flynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Mae llawer o bobl yn gwneud addunedau ar ddechrau blwyddyn newydd. Rhai o'r addunedau mwyaf cyffredin yw: Gwneud mwy o ymarfer corff; colli pwysau; dysgu sgil neu gael 'hobby' newydd; byw bywyd i'r eithaf; cynilo mwy o arian neu wario llai o arian; rhoi'r gorau i ysmygu a threulio mwy o amser gyda'r teulu a ffrindiau. Tybed beth fyddwch chi'n addunedu i'w wneud eleni? Tybed beth fydd Bob yn ei wneud fel adduned(au) Blwyddyn Newydd?*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl cael blwyddyn ddiddorol…

" Mae gen i ryw deimlad bod rhywbeth ar bawen eto. Mae'r deu-droediaid yn paratoi i fynd allan, gan fod y bocs ar olwynion yn ôl wrth y drws cefn, ac mae bwyd ychwanegol wedi landio yn fy mhowlen. Dwi'n penderfynu eu hanwybyddu nhw… os ydyn nhw am fynd i rwla a ngadael i yma, rhyngddyn nhw a'u potas! Dwi'n gw'bo byddan nhw'n dod yn ôl ymhen hir neu hwyrach. Maen nhw'n mwydro rwbath am 'flwyddyn newydd' a gweld hen ffrindiau a mwynhau! Mi fyddan nhw'n mwynhau tra bydda i yma'n styc yn y tŷ… O leiaf mi fyddai'n cael llonydd, a choeliwch chi fi, wrth edrach yn ôl ar y flwyddyn, mi faswn i wedi gallu gneud efo llonydd o bryd i'w gilydd.

Mis dwaetha mi oedd yma lond tŷ! Ia… llond tŷ! Gychwynnodd pethau'n ddistaw, efo fi a fy neu-droediaid arferol yn bwyta pob math o fwydydd mae deu-droediaid yn eu hoffi. Wedyn wnaethon nhw ddisgyn i gysgu o flaen y bocsys sgwâr swnllyd efo lluniau. Ond y diwrnod wedyn mi lenwyd y tŷ, a'r bwrdd bwyd. Ar ben bob dim mi landiodd y bwystfil coch pedeir-droed efo'r deu-droediaid fuodd yma sawl gwaith o'r blaen!! Wyddoch chi be? Dwi'n meddwl, gan ei fod o wedi bod yma o'r blaen







fy mod i yn dechrau arfer efo fo, ond dwi dal reit nerfus ac yn teimlo'n hapusach y tu ôl i'r soffa.

Roedd y deu-droediaid i gyd yn trafod beth oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn deud eu bod nhw am wneud addunedau. Dwi'n cofio be sydd wedi digwydd drwy'r flwyddyn ddiwethaf, ond dim syniad be di addunedau. Ond, ar ôl gwrando arnyn nhw'n mwydro, dwi'n meddwl mod i'n dallt - mae addunedau i fod i wneud bywyd personyn well yn y flwyddyn nesaf. Colli pwysau oedd un peth eithaf poblogaidd yn eu mysg! Hmmm, yn sicr fydda i ddim yn gneud hynny! Dydyn nhw ddim yn fy ngalw fi'n 'Bob Chwe Phowlen' am ddim rheswm. Dwi'n hoffi fi fy hun fel ag yr ydw i ac mae fy mloneg yn fy nghadw fi'n gynnas pan maen nhw'n mynd ar grwydr.

Pan oeddwn i'n cuddio tu ôl i'r soffa ar fy mhen fy hun, mi es i ati i hel atgofion am y flwyddyn ddiwethaf. Mi ydw i wedi dod yn fwy hyderus efo deu-droediaid diarth, rhai bach a mawr. Felly dwi'n meddwl bydd raid i mi ddal ati i fod yn ddewr efo deu-droediaid diarth a thrio bod yn fwy dewr byth efo'r bwystfil pedeir-troed cringoch…. Dydy o 'rioed wedi gwneud dim drwg i mi… felly bydd rhaid i mi drio fod yn ddewrach pan ddaw o yma'r tro nesaf. Ella wna'i drio ista ar un o'r cadeiriau dan y bwrdd? Welith neb fi yn fanno ac mi fedra i gadw llygaid ar bawb.

Maen nhw weithiau'n fy ngalw fi'n Llew Frenin a hynny i gyd ar ôl llun dynnodd hi ohonai allan yn yr ardd, adeg machlud haul. Hapus iawn i barhau i fod yn frenin ein gardd ni a'r parthau hyn, ac mi ydw i wedi mwynhau fy enwogrwydd yn Eco'r Wyddfa!

Dal mwy o lygod! Fasa hynny'n adduned dda i mi. Ges i lot o sylw a mwythau pan ddaliais i rai yn yr ardd llynedd. Ond peidio dod ag un i mewn i'r tŷ - yn enwedig os ydy o'n fyw!

Trio dal twrch daear - dwi'n siŵr byddai'r ddeu-droed fach yn falch os fasw'n i'n dal un, efallai gaf i faddeuant wedyn am balu tyllau yng nghanol ei borderi blodau hi …

Dwi'n siŵr bod y ddau uchod yn cyfrif fel adduned o wneud mwy o ymarfer corff. Fel arall dwi am gario 'mlaen efo '*yoga*' (roedd 'na rwbath am hyn ar y bocs sgwâr, swnllyd, y diwrnod o'r blaen).



Fydd raid i mi gofio i fod yn ofalus a pheidio gneud yoga dan y coed mawr, dwi ddim isio concyr pigog arall yn landio ar fy mhen i!

Un adduned poblogaidd i'w wneud ymysg y deu-droediaid ydy cael '*hobby*' newydd. Fues i'n meddwl yn hir am hwn, ond ar hap mi ges i syniad! Allwch chi ddyfalu beth ydy o?



Da iawn! 10 allan o 10 a seren aur! Fy '*hobby*' newydd ydy - gwylio adar! A'r fantais mwyaf ydy, mod i'n gynnes yn y tŷ, ac mae'r pethau bach pluog yn hollol ddiogel gan fod gwydr rhyngddon nhw a fi.

A cyn i mi anghofio. Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd, os ydach chi wedi gwneud addewidion neu beidio."

**Croeso**
Estynnir croeso cynnes iawn i deulu newydd Gwernhelen – Deian a Megan, a'u mab Lefi. Gobeithio byddwch yn setlo'n dda yn eich cartref newydd, ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yng ngweithgareddau'r pentref bywiog yma.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Caryl ac Ifan, Cae Corniog Bach, ar enedigaeth Nedw Ifan - mae ei chwaer fawr, Lleucu Anest, wedi dotio!

Diolch hefyd i Caryl am gynnig cydweithio ag Ann ar newyddion y pentref yn yr Eco.

**Diolch**
Dymuna Eurgain Haf ddiolch i bawb a'i noddodd i redeg Hanner Marathon Caerdydd, gan godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf a Meithrinfa Gymraeg Pont Sion Norton – meithrinfa a sefydlwyd gan Eurgain. Llwyddodd i godi dros £1,000 - £500 yr un i'r ddwy elusen. Da iawn chdi!

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Edrychwyd ymlaen at gynnal pnawn i ddathlu'r Nadolig, pnawn Mercher 20fed Rhagfyr am 2PM, yn y Neuadd Gymuned, ar y cyd â phlant yr Ysgol. Bu croeso cynnes i unrhyw un oedd yn dymuno ymuno, boed yn rhieni, nain a thaid, ffrindiau a babanod ifanc.

Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a Rhagfyr, a hyderir y ceir aelodau newydd i ymuno am £12 o Fedi i Fedi. Mae'r Clwb Cant o fudd tuag at y gôst o redeg y Neuadd Gymuned.

Bu paned a mins pei i gloi'r dathlu.

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau i Irfon a Heddwen Hughes, Ty Rardd, ar ddathlu Penblwydd Priodas Ruddem ar y 26ain o Dachwedd. Cariad mawr oddi wrth Elen, Seren, Iwan a Carmen, Erin ac Efan ac Osian.

**Diolchiadau**
Dymuna Myfanwy a Dic Parry, Tawelfa, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol yn 2024 i'r holl gyfeillion a chymdogion sydd wedi bod mor gymwynasgar yn ystod 2023. Ni fyddwn yn anfon cardiau 'Dolig eleni.

Diolchir i Carol Adlam am nôl yr Eco yn fisol ac am ei basio 'mlaen i'r dosbarthwyr yn ystod y flwyddyn.

**Cyfarchion**
Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref.



**Plannu**
Mae criw bach wedi bod yn brysur yn plannu bylbiau o gwmpas y pentref dros y misoedd diwethaf, yn barod at y Gwanwyn. Diolch i Stephen Wilson am arwain y gwaith, i'r Cynghorydd Elwyn Jones am roi help llaw, ac i breswylwyr y pentref am y rhoddion hael. Gobeithio byddwn i gyd yn mwynhau'r planhigion lliwgar ymhen ychydig fisoedd. Diolch hefyd i Brosiect Natur Llanddeiniolen am y gefnogaeth – maent hefyd yn cefnogi prosiectau tebyg ym Mrynrefail, ac yn fuan ym Methel a Deiniolen.





FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes



BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
D. P. OWENS RHIWLAS

# LLANBERIS

**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis - **Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00PM tan 7.30PM Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo** - Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan prynhawn dydd Iau, 2.00 - 4.00 PM. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel bob bore Sul trwy'r haf, hyd at ddiwedd mis Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Y grŵp yn cychwyn am 10.00AM o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am 12.00PM. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau bob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Clwb Pêl-droed Llanberis**
**Enillwyr Clwb 400 - 2023**
**Ebrill 2023**
£50 - Gillian ASODIA
£30 - Pat Saynor
**Mai 2023**
£50 - Bet Williams
£30 - Jane Pritchard
**Mehefin 2023**
£50 - Alan Jones
£30 - Heledd Roberts
**Gorffennaf 2023**
£50 - Michael Rowlands
£30 - John Williams
**Awst 2023**
£50 - Glenda Williams
£30 - Robert Jones

**Sul y Cofio**
Da oedd gweld cynifer wedi ymgynnull wrth y gofgolofn ar fore Sul y Cofio.

**Capel Coch**
***Hen Stampiau***
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi gwaith Cymdeithas y Deillion. Gellir rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

***Bocs Bwyd***
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gellir rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y Cyntedd, unrhyw Sul.

***Oedfaon Rhagfyr a Ionawr***
Rhagfyr 17eg, 10.30 AM Oedfa Deulu - Nadolig
Rhagfyr 24ain, 10.00 AM Oedfa, ac yna Paned a Sgwrs
Rhagfyr 31ain, 10.00 AM Oedfa
Ionawr 7fed, 10.00 AM Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn
Ionawr 14eg, 2.00 PM Parchg. Elwyn Richards
Ionawr 21ain, 10.00 AM Oedfa
Ionawr 28ain, 10.00 AM Parchg. Dafydd Coetmor Williams

***Cyfraniadau Ariannol***
Bydd llyfrau ariannol y Capel yn cau ar y 31ain o Ragfyr, 2023. Bydd bob cyfraniad a dderbynnir wedyn yn cael ei roi yng nghyfrifon blwyddyn 2024. Ar ran y Swyddogion, Colin J Jones, Trysorydd.

**Eglwys Sant Padarn**
***Gwasanaethau Nadolig a mis Ionawr***
17eg Rhagfyr, 11.00AM - Cymun Bendigaid
24ain Rhagfyr, 8.00AM - Cymun Bendigaid, 4PM - Gwasanaeth y preseb
25ain Rhagfyr, 10.00AM - Cymun Bendigaid
31ain Rhagfyr, 11.00AM - Boreol Weddi
7fed Ionawr, 11.00AM - Cymun Bendigaid
14ain Ionawr, 11.00AM - Boreol Weddi
21ain Ionawr, 11.00AM - Cymun Bendigaid
28ain Ionawr, 8.00AM - Cymun Bendigaid,
11.00AM - Gwasanaeth Teulu




**Te Pnawn**
Dan nawdd Eryri Cydweithredol ac er budd Cartref Plas Pengwaith, cynhelir Te Pnawn Nadolig yng Nghanolfan Llanberis ar yr 20fed o Ragfyr, rhwng 13.45PM - 16.00PM. Mynediad am ddim.

***Cyngerdd***
Ddydd Sul, 17eg Rhagfyr am 5.00 o'r gloch, cynhelir cyngerdd Seindorf Arian Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris yn yr Eglwys.

***Clwb 100 yr Eglwys***
**Enillwyr Clwb 100 mis Hydref oedd :**
1) Ellen Hughes
2) Heulwen Edwards
3) John G Jones

Arddangosfa
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30AM a 2:00PM o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Eglwys Sant Peris**
***Gwasanaethau mis Rhagfyr***
17eg Rhagfyr, 9:30AM - Boreol Weddi
24ain Rhagfyr, 11:30PM - Offeren Ganol Nos
31ain Rhagfyr, 9:30AM - Boreol Weddi
7fed Ionawr, 9:30AM - Boreol Weddi
14ain Ionawr, 9:30AM - Cymun Bendigaid, 4yh - Gwasanaeth Teulu
21ain Ionawr, 9:30AM - Boreol Weddi
28ain Ionawr, 9:30AM - Cymun Bendigaid
Hefyd, bob dydd Mawrth am 11.00AM, cynhelir unai Boreol Weddi neu'r Cymun Bendigaid






# Y NADOLIG



**O ble daeth Santa Claus?** Mae'r ddelwedd fodern o Santa Claus yn seiliedig ar y ffigwr Iseldiraidd sef Sinterklaas, a ddygwyd i America gan ymsefydlwyr o'r Iseldiroedd. Mae trawsnewid Sinterklaas i'r Siôn Corn llawen, bochgoch rydyn ni'n ei adnabod heddiw i'w briodoli'n rhannol i ymgyrchoedd hysbysebu enwog Coca-Cola yn y 1930au.

**Y Cerdyn Nadolig Cyntaf**: Comisiynwyd y cerdyn Nadolig masnachol cyntaf ym 1843 gan Syr Henry Cole, gwas sifil o Brydain. Roedd y cerdyn yn cynnwys llun o deulu'n dathlu, ac argraffwyd a gwerthwyd tua 1,000 o gopïau am swllt yr un.

**Record White Christmas**: Mae cân Irving Berlin "White Christmas" yn dal Record Byd Guinness fel y sengl a werthodd orau erioed, gyda dros 50 miliwn o gopïau wedi'u gwerthu ledled y byd.

**Golygfa'r Geni:** Crëwyd yr olygfa Geni gyntaf a gofnodwyd gan Sant Ffransis o Assisi ym 1223. Roedd am bwysleisio gwir ystyr y Nadolig gan ddefnyddio golygfa fyw gyda phobl ac anifeiliaid.

**Boncyff Nadolig:** Mae'r traddodiad boncyff yn dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol yn Ewrop. Byddai teuluoedd yn llosgi boncyff mawr, yn aml o Nadolig y flwyddyn flaenorol, am lwc dda trwy gydol y gaeaf.

**Traddodiadau Uchelwydd**: Mae'r traddodiad o gusanu dan yr uchelwydd yn dod o fytholeg Llychlynnaidd hynafol. Credir bod ganddo'r pŵer i ddod â chariad a ffrwythlondeb. Bob tro mae cusan yn cael ei hawlio dan yr uchelwydd, mae un aeron yn cael ei dynnu o'r swp, a phan fydd yr holl aeron wedi mynd, mae'r cusanu'n stopio. (Ond nid felly heddiw!).

**Tarddiad hosanau Nadolig**: Mae'r traddodiad o hongian hosanau ger y lle tân yn dod o chwedl Sant Nicolas. Yn ôl y stori, taflodd Nicolas fagiau o aur i lawr simnai dyn tlawd na allai fforddio dim i'w dair merch. Glaniodd yr aur yn yr hosanau yr oedd y merched wedi eu crogi ger y lle tân i'w sychu.

**Tinsel**: Dyfeisiwyd Tinsel yn wreiddiol yn yr Almaen ym 1610. Fe'i gwnaed o arian go iawn ac felly roedd yn ddrud i ddechrau.

**Carolau Nadolig:** Ym 1647, gwaharddodd Senedd Lloegr garolau Nadolig, gan eu hystyried yn rhy hapus. Dim ond pan gipiodd Siarl II yr orsedd ym 1660 y cafodd y gwaharddiad ei godi.

**Poinsettia**: Enwir y poinsettia, planhigyn Nadolig poblogaidd, ar ôl Joel Poinsett, llysgennad cyntaf yr Unol Daleithiau i Fecsico, a gyflwynodd y planhigyn i'r Unol Daleithiau ar ddechrau'r 19eg ganrif.

**Rhuthr priodas Nadolig**: Dydd Nadolig yw'r diwrnod lleiaf poblogaidd ar gyfer priodasau, tra mai'r diwrnod mwyaf poblogaidd i ddyweddïo yw Noswyl Nadolig. Mae llawer o gyplau yn dewis y tymor gwyliau ar gyfer dyweddïo, gan ei wneud yn adeg arbennig o ramantus o'r flwyddyn.

**Deuddeg Diwrnod y Nadolig**: Mae'r garol Nadolig enwog "The Twelve Days of Christmas" yn fwy na dim ond tôn fachog. Dechreuodd yn Lloegr yn ystod yr 16eg ganrif a chredir ei bod yn ffordd gudd i Catholigion ddysgu eu ffydd ar adeg pan waharddwyd Catholigiaeth. Mae gan bob rhodd a grybwyllir yn y gân ystyr grefyddol gudd.

## CAEATHRO

**Capel**
Ar yr 7fed o Ionawr bydd gwasanaeth cyntaf y flwyddyn newydd yn cael ei gynnal am 2:00 pm dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths. Bydd y gwasanaeth nesaf ar yr 21ain o Ionawr dan arweiniad y Parchedig Aled Davies, hefyd i gychwyn am 2:00 pm.

**Canu Carolau**
Dewch i ymuno â ni nos Fawrth 19eg o Ragfyr i gyd-ganu carolau.




**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
Diolch yn fawr i griw'r Gymdeithas am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref unwaith eto eleni – mae'n werth ei gweld. Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau.

**Clwb Garddio**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd ar y 14eg o Dachwedd a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd, Rhiannon Owen.

Ein siaradwr gwadd oedd Dewi Jones, Antur Waunfawr.

Dechreuodd trwy roi hanes sefydlu Antur Waunfawr gan Gwynn Davies. Bydd y sefydliad yn dathlu pen-blwydd 40 oed yr haf nesaf. Mae Dewi'n gweithio yno ers 38 mlynedd.

Testun ei sgwrs oedd gwneud seidr. Mae'r Antur wedi bod yn gwneud seidr ers 10 mlynedd. Maent yn tyfu coed afalau yn yr ardd yn Waunfawr a hefyd yn derbyn rhoddion gan bobl leol. Mae'r seidr yn cael ei gynhyrchu o gymysgedd o afalau coginio a bwyta. Rhoddir mewn peiriant i'w malu er mwyn cael y sudd. Yna, mae'r sudd yn cael ei roi mewn cerwynau am 3 wythnos cyn ei botelu.

Mae gan yr Antur siop ar lein 'Perllan y Fro'; ac mae'n bosib archebu'r seidr, bara brith, jam a nionod picl o'r fan honno. Yn ogystal, maent wedi addasu trelar er mwyn cael mynd â'r cynnyrch i ffeiriau bwyd yn yr ardal.

Diolchwyd i Dewi am sgwrs hynod o ddifyr gan Rhiannon Owen.

# WAUNFAWR

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Dyma ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn dda i holl bentrefwyr Waunfawr. Diolch i bawb anfonodd newyddion a lluniau ataf yn ystod y flwyddyn ac i bawb fu'n fy helpu wrth i mi holi am fwy o fanylion am ambell i stori.

Wrth adrodd am newyddion drwy gydol y flwyddyn, y stori bwysicaf un i ni yma heb os, yw pa bryd bydd y feddygfa newydd yn cael ei hadeiladu. Gobeithio yn wir y daw'r flwyddyn newydd a newyddion da am gyllid ac y bydd y staff ymroddgar a galluog yn cael adeilad pwrpasol ac addas ar eu cyfer.

**Gwyrfai Gwyrdd**
Os wnaethoch chi ddarllen cofnodion Cyfarfod Cymuned Waunfawr a Chaeathro yn y rhifyn diwethaf, fe sylwoch ar gyfeiriad at Gwyrfai Gwyrdd. Er mwyn i bobl gael gwybod yn union beth yw'r cynllun hynod o gyffrous yma, mi es i holi Dafydd Davies, Bryn Teg, Cynghorydd Plaid Cymru ar y Cyngor Cymuned a'r un sy'n arwain ar y gwaith yma.

***Beth ydi Gwyrfai Gwyrdd?***
'Gwyrfai Gwyrdd yw'r enw ar Fenter Ynni Cymunedol newydd sydd ar fin cael ei sefydlu efo'r nod o alluogi dyffryn Gwyrfai i gyrraedd sero carbon net o fewn 10 mlynedd o Ryd Ddu, trwy Waunfawr ac i lawr i Gaeathro.

Rydan ni'n bwriadau dysgu oddi wrth fentrau ynni cymunedol eraill yng Ngwynedd fel Ynni Ogwen (Bethesda), Ynni Padarn Peris (Llanberis) ac Ynni Anafon yn Abergwyngregyn sydd wedi datblygu'n llwyddiannus nifer o brosiectau ynni adnewyddol hydro a solar ac yn defnyddio elw cymunedol i ariannu achosion da lleol a dad-garboneiddio cartrefi a thrafnidiaeth (e.e pwyntiau EV).'

***Pa nodweddion arbennig sy'n gwneud Waunfawr a Dyffryn Gwyrfai yn addas ar gyfer y fenter hon?***
'Mae gan Ddyffryn Gwyrfai a Chaeathro nifer o nodweddion sy'n eu gwneud yn addas ar gyfer prosiectau hydro gyda dwy afon fawr gerllaw (Gwyrfai a Seiont) yn ogystal â nifer of nentydd amlwg, ac ar yr ochr solar mae'n gyfle i gydweithio efo sefydliadau, busnesau a pherchnogion tir i gydweithio ar ddatblygu adnoddau solar cymunedol. Hefyd, mae trafodaethau cynnar efo darpar bartneriaid am y cyfle i greu prosiect peilot gan ddefnyddio pympiau gwresogi.'

***Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn?***
'Yn dilyn gwaith cynllunio ac ymchwil cychwynnol, ffurfiwyd grwp llywio dechrau'r haf sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r ddau gyngor cymuned lleol, Antur Waunfawr a'r sector busnes. Y camau allweddol nesaf fydd cynllunio'n fanylach opsiynau'r prosiect am y 3 blynedd gyntaf ac ymgynghori yn eang efo'r gymuned i sicrhau fod Gwyrfai Gwyrdd yn blaenoriaethu'r prosiectau pwysicaf i'r gymuned.

***Beth fydd budd y cynllun i bentrefwyr Waunfawr?***
Mae ein gweledigaeth tymor hir am Gwyrfai Gwyrdd yn cynnwys "*future proofing*" cymunedau Waunfawr, Caeathro a'r pentrefi ar hyd y dyffryn, sef sicrhau bod y dyffryn yn medru cynhyrchu ei thrydan ei hun, yn hybu trigolion, busnesau a sefydliadau i leihau tlodi ynni a'u hôl troed carbon.

'Disgwyliwn y bydd Gwyrfai Gwyrdd yn cydweithio'n agos efo'r mentrau ynni cymunedol eraill yng Ngwynedd o dan ymbarel GwyrddNi a Cymunedoli, ac yn cymryd rhan weithgar dros amser yn gweithredu prosiectau a rhaglenni gwyrdd Cymreig yn ardal Waunfawr'.

***Beth yw'r amserlen ar gyfer y cynllun?***
'Mae cais i sefydlu Gwyrfai Gwyrdd fel cwmni cymunedol yn cael ei wneud mis Tachwedd, proses tebyg i fentrau eraill.

Wrth ochr hyn bydd ceisiadau refeniw, efo cytundeb y grwp llywio, yn ein galluogi i gomisiynu gwaith prosiectau adnewyddol technegol ac ymgynghori lleol efo'r bwriad o godi cyfalaf cychwynnol o dymor y Gwanwyn 2024'.

Diolch yn fawr iawn i Dafydd a'r gweddill o'r pwyllog llywio am eu gweledigaeth ac am eu gwaith caled hyd yn hyn ac i'r dyfodol er mwyn ceisio gwireddu amcanion y cynllun.

**Cerdd Gwneud yn Dda**
Mae'r gerdd isod wedi cael ei chomisiynu gan y Pwyllgor Llywio, a'i chyfansoddi gan Mei Mac.

**GWNEUD YN DDA**

Yli'r haul ar ben y mynydd,
fel erioed ac yn dragywydd
a chlyw sŵn y nant yn gerrynt.
Beth am wneud yn dda ohonynt?

Beth am i ni afael ynddi,
pawb ohonom, mynd amdani?
Gweithio hefo'r byd o'n cwmpas,
ni a natur yn briodas?

Dal yr egni o belydrau,
a throi'r dŵr i'n melin ninnau,
gweld y gwynt fel brawd a chymar,
closio'n dynn, y ni a'r ddaear.

Gwarchod wnawn ein hetifeddiaeth,
natur yn ei holl amrywiaeth
cadw'r fro yn lân a phrydferth
drwy roi sglein ar wastraff diwerth.

Rhannu'r cyfoeth a'r digonedd,
gwneud yn dda â'n byd a'n tirwedd;
troi'r breintiedig a'r anghennus
yn gymuned deg, lwyddiannus.

A rhyw ddiwrnod mi gawn frolio
wrth ein plant, yn byw'n net-sero,
"Dod a wnaethom at ein gilydd,
ni a'r haul a nant y mynydd."

**Meirion MacIntyre Huws**

*Mawrth 2023*


DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

CEIR CYMRU
Diolch am gefnogaeth
ein cwsmeriaid yn Eryri
dros 25 mlynedd
Gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com
Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

# Ysgol Brynrefail





**Prosiect Pum Mil**
Braf oedd gweld criw o'n disgyblion Celf yn amlwg ar raglen Prosiect Pum Mil yng nghanol Tachwedd. Roedd hi'n ddifyr gweld Trystan, cyn-ddisgybl o fri yn amlwg wrth ei fodd yn ôl yn ei gynefin. Seren arall y rhaglen heb os oedd Llew Jones blwyddyn 8 gan mai ei syniad ef oedd gwneud cais i'r rhaglen ddod draw i drawsnewid Cwt Band Llanrug.

Roedd y canlyniad yn werth chweil a gwaith Celf disgyblion yr ysgol yn rhan amlwg o'r prosiect.

Bu pawb wrthi'n brysur rhwng Mehefin 30 a Gorffennaf 13 yn cael popeth yn barod tra roedd y ffilmio'n digwydd a diolch o galon i Mrs Jennifer Hughes y Pennaeth Celf am roi ei hamser i sicrhau llwyddiant y gwaith. Dyma restr o'r disgyblion fu'n gweithio ar y prosiect:

Efan Gwilym 7O
Elliot Martin 7I
Sam Griffiths 7I
Cadi Siôn 9N
Miri Siôn 9E
Gruff Evans 9N
Cerys Morris 10N
Alaw Roberts 10S
Martha Rhys 10i
Alys Davies 10T
Guto Parry 10i
Ioan Powell 10E
Jack Lawes 10N
Sam Booth 10I







**Ymweliadau Pontio blwyddyn 6**
Roedd hi'n hynod o braf cael croesawu disgyblion blwyddyn 6 yma ar ymweliadau pontio ar ddechrau mis Tachwedd.

Yn ystod yr wythnos Tachwedd 13eg i'r 17eg daeth criwiau blwyddyn 6 o ysgolion Waunfawr, Dolbadarn, Llanrug, Penisarwaun, Bethel a Gwaun Gynfi i ymweld â'r ysgol.

Roedd dau weithgaredd iechyd a lles wedi eu paratoi ar gyfer rhai ysgolion. Yn yr Adran Addysg Gorfforol cawsant gyfle i gydweithio a mwynhau gweithgareddau ffitrwydd cyn symud mlaen i'r stafell Bwyd a Maeth i greu eu snacs iach eu hunain.

Cafodd rhai ysgolion gyfle i wneud gweithgareddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg lle roeddent yn dylunio a lansio rocedi allan o boteli plastig ac yn cynnal arbrawf past dannedd eliffant! Roedd pawb wedi mwynhau a chael hwyl.

Rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu yma eto yn yr haf am ddeuddydd ac wedyn wrth gwrs i flwyddyn 7 ym mis Medi!



www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa



**Llwyddiant Buddug!**


Mae Buddug Jones, disgybl blwyddyn 13 ac un o'n prif ddisgyblion, newydd ryddhau ei chaneuon ei hun yn y mis diwethaf gyda chwmni Recordiau Côsh. Mae ei chaneuon wedi eu chwarae droeon ar Radio Cymru ers hynny ac ar y gwefannau cymdeithasol gyda phawb yn gwirioni ar ei thalent anhygoel a'i halawon bachog.

Mae Buddug wedi bod yn ysgrifennu ei chaneuon ei hun ers sawl blwyddyn bellach, ac yn ystod y cyfnod clo, tyfodd ei hyder, yn enwedig mewn sesiynau un i un gyda'r artist unigryw Alys Williams, a hyn i gyd dros Zoom! Cysylltodd Alys ag Yws Gwynedd o Recordiau Côsh a daeth y cyfle iddi fynd i stiwdio Ferlas, Penrhyndeudraeth i recordio cwpl o ganeuon gyda Rich James Roberts yn gynharach yn y flwyddyn.

Mae cân Buddug wedi bod yn drac yr wythnos ar Radio Cymru yn ystod wythnos gyntaf Rhagfyr!

Mae cerddoriaeth Buddug yn aeddfed tu hwnt i'w blynyddoedd, gydag alawon sy'n aros yn y cof yn rhoi llwyfan i eiriau meddylgar, gonest a phersonol.

Bydd mwy o gerddoriaeth gan Buddug yn y flwyddyn newydd ac mae ganddi ddyfodol disglair o'i blaen. Rydym yn falch iawn o'i llwyddiant yma yn Ysgol Brynrefail.



# Trefniadau parcio Nadolig ym meysydd parcio Cyngor Gwynedd




Fel rhan o ymdrechion i gefnogi busnesau lleol y Nadolig yma, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig parcio am ddim yn ei holl feysydd parcio o 11am bob dydd rhwng 9fed a 26ain Rhagfyr. Bydd ffioedd yn ail-gychwyn o 27 Rhagfyr.

Meddai'r Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd:

"Mae cyfnod y Nadolig yn gyfnod hynod bwysig i'r sector siopau ac adloniant, ac felly mae'n bwysig ein bod yn gwneud pob ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol.

"Dyna pam fod Cyngor Gwynedd yn cynnig parcio am ddim yn ein meysydd parcio bob diwrnod, o 11am ymlaen rhwng 9 a 26 Rhagfyr.

"Trwy wneud hynny, rydym yn gobeithio y bydd trigolion Gwynedd a thu hwnt yn cefnogi'r amrywiaeth o fusnesau bach sy'n asgwrn cefn ein cymunedau. Nid yn unig bydd hynny'n hwb i'r economi leol, ond bydd hefyd yn dangos nad oes angen teithio'n bell i wneud eich siopa Nadolig.

"Felly, os ydych chi'n chwilio am anrhegion arbennig, yn prynu bwyd a diod ar gyfer y dathliadau Nadoligaidd, cofiwch am y cyfoeth o fusnesau bach a chrefftwyr lleol yma yng Ngwynedd, a gwnewch y mwyaf o'r parcio am ddim."

Mae gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddanteithion sydd ar gael o lawer iawn o fusnesau Gwynedd i'w gweld yma: www.visitsnowdonia.info/cy/siopau-cynnyrch-lleol

Ymgyrch ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd ydi hwn. Bydd arwydd ar bob peiriant talu ac arddangos ym meysydd parcio cyhoeddus y Cyngor, felly os nad oes nodyn i'w weld, dylech wirio os ydi o'n faes parcio'r Cyngor.

Mae lleoliad holl feysydd parcio Cyngor Gwynedd ar gael ar-lein: www.gwynedd.llyw.cymru/parcio



**Tristwch**
Yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn collwyd tri a fu â chysylltiadau agos â'r pentref. Bu Rowena, 78 oed, gynt o Glan Gors, farw yng Nghaernarfon wedi dioddef gwaeledd ers nifer o flynyddoedd. Yr oedd Dinorwig a'i thrigolion yn agos iawn at ei chalon. Cydymdeimlwn â Brian, ei gŵr, a Siân ei merch yn eu profedigaeth. Fe'i claddwyd ym Mynwent Llanbeblig.

Ym Mangor bu farw yn ddisymwth, nai i Lin a Huw Ronald, gynt o Fron Heulog. Ein cydymdeimlad â'i wraig a'r mab yn eu colled frawychus o sydyn.

Yn Nhŷ Capel Dinorwig y magwyd Eilir gyda'i chwaer, Marian a'i rieni Ifor a Ceridwen Williams. Roedd yn byw yn Nyffryn Nantlle gyda Margaret, ei wraig a dwy o enethod. Bu colli Margaret yn ergyd drom iddo; ergyd a effeithiodd ar ei iechyd. Cydymdeimlwn yn fawr â'r genethod a'u teuluoedd ac â Marian, sy'n byw yn Lloegr ers blynyddoedd. Tair marwolaeth sy'n dwyn i gof deuluoedd Dinorwig a aeth ar wasgar dros y blynyddoedd.

**Llongyfarchiadau**
Roedd dau o'r fro yn dathlu penblwyddi yn ddiweddar. Llewelyn Jones, 4 Bro Elidir yn cyrraedd ei 80 oed, a Hannah Tŷ'r Ysgol hefyd yn dathlu penblwydd. Gan ddymuno pob bendith i chwi ac iechyd.

**Gwasanaethau yn Nhŷ Elidir, Deiniolen.**
7 Ionawr : Gwasanaeth dechrau'r flwyddyn. 2.00PM
14 Ionawr : Mr John Roberts, Llanfairpwll. 3.30PM
21 Ionawr : Parch Huw Pritchard, Llangefni. 5.00PM
28 Ionawr : Parch Eric Jones, Bangor. Amser i'w gadarnhau.

**Cyfarchion**
Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y fro.

(Gan ddymuno adferiad iechyd i Marian Jones hefyd, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Diolch i chwi am eich gwaith dros yr Eco. Golygyddion)

# CHWILAIR MIS IONAWR - BLWYDDYN NEWYDD DDA!

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ff | B | E | D | W | F | A | N | N | E | Ff | R | O | G | A |
| N | E | M | A | I | Ch | R | H | P | D | Dd | N | I | E | D |
| R | C | T | E | F | I | Ng | R | A | D | I | A | W | S | Y |
| D | Ll | I | B | G | C | A | W | S | T | R | F | T | G | L |
| M | A | W | R | Th | S | W | B | R | Dd | O | M | Ph | B | O |
| E | Y | Rh | M | T | U | D | I | Y | Ll | Ff | E | N | L | D |
| H | F | S | O | C | G | U | N | A | Dd | E | Ll | F | W | S |
| E | E | B | H | Dd | F | Y | W | M | Rh | A | G | F | Y | R |
| F | B | L | W | Y | Dd | Y | N | N | E | W | Y | Dd | Dd | A |
| I | R | Ch | Rh | Y | D | E | M | N | A | D | D | E | Y | I |
| N | I | S | W | Dd | B | R | C | T | F | S | I | W | N | H |
| E | Ll | L | U | E | S | Y | E | Y | I | R | B | Ch | N | Dd |
| T | B | Y | R | A | Ch | W | E | F | R | O | R | A | A | O |
| I | A | W | C | Dd | E | L | S | B | Y | N | E | T | I | N |
| F | R | I | O | N | A | W | R | T | Ll | G | H | R | D | S |

| | | |
|---|---|---|
| IONAWR | MEHEFIN | TACHWEDD |
| CHWEFROR | GORFFENNAF | RHAGFYR |
| MAWRTH | AWST | BLWYDDYN NEWYDD DDA |
| EBRILL | MEDI | BLWYDDYN NAID |
| MAI | HYDREF | BLWYDDYN Y DDRAIG |

**Fel y gwyddoch mae 365 diwrnod mewn blwyddyn arferol, ond eleni mae hi'n flwyddyn naid! Mae 366 o ddyddiau felly yn 2024.**

**Yn y calendr Tseiniadd mae 2024 yn Flwyddyn y Ddraig! Addas iawn i ni, bobl Cymru!**

**Cewch yr atebion i'r chwilair hwn yn rhifyn nesaf yr Eco.**

**Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.**

**Blwyddyn Newydd Dda i bob un o'n darllenwyr!**

## Geirfa i'r dysgwyr – *Learner's Vocabulary*

| | |
|---|---|
| Ionawr - *January* | Tachwedd - *November* |
| Chwefror - *February* | Rhagfyr - *December* |
| Mawrth - *March* | Newydd Dda Blwyddyn - *Happy New Year* |
| Ebrill - *April* | Blwyddyn Naid - *Leap Year* |
| Mai - *May* | Blwyddyn y Ddraig - *Year of the Dragon* |
| Mehefin - *June* | Medi - *September* |
| Gorffennaf - *July* | Hydref - *October* |
| Awst - *August* | |

## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Rhagfyr
Rhagfyr 17, 9:30AM - Boreol Weddi
Rhagfyr 24, 11:30PM - Offeren Ganol Nos
Rhagfyr 31, 9:30AM - Boreol Weddi
Ionawr 7, 9:30AM - Boreol Weddi
Ionawr 14, 9:30AM - Cymun Bendigaid, 4.00PM - Gwasanaeth Teulu
Ionawr 21, 9:30AM - Boreol Weddi
Ionawr 28, 9:30AM - Cymun Bendigaid

Hefyd, bob dydd Mawrth am 11AM cynhelir un ai Boreol Weddi neu'r Cymun Bendigaid

Dydd Sul Rhagfyr 17, 5PM - Cyngerdd Seindorf Arian Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris yn Eglwys Sant Padarn.



Dyma'r atebion i chi ar gyfer y mis diwethaf. Gobeithio y gawsoch chi Nadolig dedwydd ac ychydig o saib i gwblhau'r chwilair.

## ATEBION I CHWILAIR – CAROLAU A CHANEUON Y NADOLIG

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | A | W | E | L | N | O | S | Ŵ | A | M | Ll | U | C | D | L | O | I | G | O |
| Y | O | B | C | Ch | N | A | D | O | L | I | G | P | W | Y | A | Ŵ | Y | R | D |
| M | A | I | G | T | R | W | C | L | Y | Ch | A | U | R | C | E | I | R | W | A |
| U | P | R | I | O | R | W | E | Dd | M | E | W | N | P | R | E | S | E | B | W |
| N | Y | R | B | Y | S | O | R | D | D | A | W | D | N | Y | S | Y | W | P | E |
| W | C | N | L | O | I | L | D | O | G | Ŵ | O | R | Dd | C | O | T | E | R | L |
| N | A | D | O | L | I | G | Ll | A | W | E | N | I | Ch | I | G | Y | D | O | Dd |
| N | A | R | A | E | G | Ŵ | Y | L | Y | B | A | B | A | N | A | S | Y | L | I |
| A | M | O | B | L | F | D | S | Ng | T | N | M | E | G | E | Y | O | N | Y | N |
| D | T | Ch | P | H | Rh | I | C | A | F | E | A | I | N | W | B | U | N | W | A |
| O | C | S | Ll | B | E | A | Ff | P | T | R | I | Rh | B | R | E | M | A | G | S |
| L | E | G | Y | H | Ch | Y | L | S | D | E | N | A | A | N | E | G | Ch | A | B |
| I | W | U | F | Ph | U | B | O | I | Ll | S | Dd | N | M | I | T | R | Y | D | E |
| G | A | N | O | L | G | A | E | A | F | N | O | E | Th | L | W | M | B | I | Th |
| Ll | S | T | D | F | A | T | I | E | D | U | L | I | Ch | L | Y | D | L | A | L |
| A | R | I | A | M | Dd | R | E | G | N | A | I | W | H | S | U | C | O | P | E |
| W | A | N | P | E | R | S | E | B | N | S | G | L | A | R | D | I | B | R | H |
| E | R | O | B | R | W | I | Dd | E | H | R | E | F | Y | G | R | A | E | I | E |
| N | A | N | I | D | L | O | E | Ll | G | Rh | T | B | A | Ch | N | W | R | A | M |
| T | O | D | E | U | W | Ch | Ff | Y | Dd | L | O | N | I | A | I | D | O | M | S |

Ar gyfer heddiw'r bore
Bachgen a aned
Clychau'r ceirw
Dawel Nos
Dymunwn Nadolig Llawen
Ebol Bychan
Ganol gaeaf noethlwm
Gŵyl y Baban
Hwiangerdd Mair
I orwedd mewn preseb
Mair paid ag wylo
Nadolig Llawen i chi gyd
Nadolig Pwy a Ŵyr
O Dawel Ddinas Bethlehem
O Deuwch Ffyddloniaid
O Na Mai'n Ddolig eto!
Pwy sy'n dwad dros y bryn?
Un seren


ƉIONI
Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia
Gwion Llwyd 01341 247 200 gwion@dioni.co.uk
BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)

Dewch am dro i'r siop am wledd o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein
Palas PRINT
10 Stryd y Plas
Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# Ysgol Bethel

**Pencampwyr Pêl-droed Ysgolion Gwynedd**
Dydd Gwener y 1af o Ragfyr bu tîm pêl-droed cymysg yr ysgol yn cystadlu yn erbyn ysgolion ar draws Gwynedd yng nghystadleuaeth yr Urdd. Perfformiodd yr hogiau'n ardderchog gan ddod i'r brig yn y rownd derfynol. Oherwydd eu llwyddiant, bydd y tîm yn cynrychioli'r rhanbarth yn nhwrnamaint cenedlaethol yn Aberystwyth ym mis Mai. Da iawn chi hogiau. Diolch anferthol i Mr Tom Lawson am hyfforddi'r tîm.




Tafarn
Y Glyntwrog
Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191



**Diogelwch y ffyrdd**
Dyma lun o flwyddyn 2 yr ysgol yn cymryd rhan mewn sesiynau diogelwch y ffordd. O ganlyniad i'r hyfforddiant tri diwrnod, mae plant yr ysgol yn adnabod sut mae cadw eu hunain yn saff wrth gerdded ar y pafin a chroesi'r ffordd. Da iawn chi.



ECO'r Wyddfa

Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu

Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



**Plant Mewn Angen**
Eto eleni, bu'r Cyngor Ysgol yn trefnu diwrnod Plant Mewn Angen. Dillad nos oedd themâu'r diwrnod gyda phawb yn hynod gartrefol yn eu 'slipars'. Codwyd dros £130 i'r elusen. Diolch i bawb am gefnogi.

# Un funud fach …

## SIWGR A SYLWEDD

O leiaf – ac mae hyn ynddo'i hun yn dipyn o syndod – doedd hi ddim yn funud olaf arnaf y tro hwn. Fel arall, beryg y byddai sawl aelod o'r teulu heb anrheg eleni. Mi gyrhaeddais Landudno'n ddidrafferth y Sadwrn o'r blaen, a meddwl y byddai siop fwyd Marks & Spencer cystal lle ag unman i gychwyn siopa. A chan na fûm erioed y gorau am gynllunio fy siopa Dolig, mi dybiais y byddai awran yn y fan honno'n awran hefyd o ddwys fyfyrio am siopau ac anrhegion eraill. Cyn pen yr awr, dyna drosglwyddo'r ysbail – mwy o siwgr na sylwedd, mwyaf cywilydd – o'r troli i'r ddesg dalu. Doedd dim angen prynu bagiau plastig gan i mi gofio mynd â digon ohonyn nhw efo mi. Chaiff neb ddeud mod i'n gwbl ddi-drefn! Ac eto! Cyn i'r wraig wrth y til ddechrau sganio'r nwyddau mi sylweddolais – wedi tyrchu ym mhob poced – nad oedd olwg o'm waled. Doedd dim amdani ond ymddiheuro ac egluro ac ail lwytho'r troli cyn ei gadael yng ngofal aelod clên o staff y siop, yn y gobaith fy mod wedi gadael y waled yn y car. Doeddwn i ddim!

Adra â mi felly, yn waglaw, heb sylweddoli y byddwn wedi medru defnyddio fy ffôn i dalu am y cwbl. Diolch am hynny, roedd y waled yn ddiogel gartra; a chan nad oedd, fel y soniais, yn funud olaf arnaf, caf gyfle arall i siopa. A'r tro nesaf, bodloni o bosibl ar lai o siwgr ac ar wneud rhywfaint o gynllunio ymlaen llaw, ac yn sicr gofalu bod y waled yn ddiogel yn fy llaw.

Roeddwn i'n teimlo'n wirion. Hyd y gwn i, wnaeth fawr o neb sylwi ar f'embaras. A dyna'r cyfan oedd o wrth gwrs: tipyn o embaras. Caf fynd nôl i'r siop a phrynu, os dymunaf, lond trol. Ond mi wnaf hynny gan sylweddoli o'r newydd nad pawb all wneud hynny'r Dolig hwn: nid am fod y waled neu'r pwrs yn y drôr ond am eu bod yn wag. Cyn mynd nôl, beth am agor y waled a chyfrannu at waith y Banc Bwyd lleol sy'n ceisio gwneud bywyd rywfaint yn haws i eraill at y Dolig.

Llai o siwgr a mwy o sylwedd, meddwn. Ac nid yn y troli yn unig. Ar drothwy'r Ŵyl, mae mwy na digon o siwgr i'n denu: ystrydeb yw sôn am yr holl rialtwch a'r gwario a'r gormodedd sydd ynghlwm â hi. Dwi wrth fy modd efo'r hwyl a'r rhialtwch … a'r siwgr. Ond beth am wneud ymdrech fwriadol eleni i roi mwy o le i'r sylwedd? Siawns na wnâi llai o'r siwgr a mwy o gariad a charedigrwydd a chymdeithas a chwmnïaeth y Dolig ddrwg i neb.

Ac o sôn am sylwedd! Roedd fy nhrip siopa'n gwbl ofer heb y waled. Heb arian, heb gerdyn banc, heb fodd o dalu, gwag fydd fy nhroli eto hefyd. A gwag fydd fy Nadolig heb y peth – neu'n fwy cywir, heb y person – sy'n rhoi ystyr i'r cyfan. Ac felly, beth am sicrhau eleni bod Iesu Grist – y baban a aned ym Methlehem; Mab Duw ei hun; f'Arglwydd a'm Gwaredwr a ddaeth i farw trosof ar Galfaria – yn cael mwy o'm sylw a'm mawl?

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd fendithiol i chi i gyd.

*JOHN PRITCHARD*













# Apêl yr Urdd i gynnig gwyliau haf i 250 o blant difreintiedig

Gydag ystadegau yn dangos fod 30% o blant Cymru bellach yn byw mewn tlodi, mae'r Urdd yn ail-lansio apêl er mwyn sicrhau bod rhai o blant a phobl ifanc fwyaf difreintiedig Cymru yn cael gwyliau yn 2024.

Os yw'r modd gennych chi, mae'r Urdd yn galw ar unigolion, cwmnïau a chymdeithasau i gyfrannu at gynllun 'Cyfle i Bawb - Cronfa Gwersyll Haf yr Urdd'. Bwriad y gronfa yw cynnig gwyliau i 250 o blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi neu dan amgylchiadau heriol.

Bob haf ers 2019 mae'r Gronfa wedi galluogi i gannoedd o blant a phobl ifanc difreintiedig i fwynhau gwyliau yng ngwersylloedd yr Urdd.

Mae'r mudiad wedi cynyddu'r targed ar gyfer 2024 ar ôl derbyn y fwyaf erioed o geisiadau am wyliau haf drwy nawdd y Gronfa yn 2023. Gall unrhyw un gefnogi a chyfrannu unrhyw swm tuag at Gronfa i Bawb. Byddai nawdd o £180 yn cyfrannu at gost gwyliau i un plentyn neu berson ifanc ar Wersyll Haf yng Nglan-llyn, Llangrannog, Pentre Ifan neu Gaerdydd. Bydd 17 o Wersylloedd Haf yn cael eu cynnal ar draws y 4 safle yn 2024. Mi fydd y cyrsiau yn cynnwys cwrs perfformio, cwrs cerddoriaeth, gwersyll i ddysgwyr yn ogystal â gwersylloedd antur a gwersylloedd haf traddodiadol i blant rhwng 8-15 oed.

Mae'r apêl wedi'i groesawu gan rieni'r rheiny fynychodd Wersyll Haf eleni drwy nawdd Cronfa Cyfle i Bawb. Meddai un rhiant, Cerian Rolls o Aberdâr: "Dim ond drwy'r Gronfa oedd hi'n bosib i fy mab fynychu ei gwrs preswyl cyntaf erioed. Cafodd yr amser gorau, gwnaeth llawer o ffrindiau newydd, ac mae eisoes wedi gofyn am gael mynd yn ôl y flwyddyn nesaf. Diolch am roi'r cyfleoedd anhygoel yma iddo."

"Mae'r argyfwng costau byw nid yn unig yn rhoi straen ariannol ar deuluoedd, ond yn effeithio iechyd emosiynol a gweithgarwch corfforol plant a phobl ifanc, hefyd," meddai Siân Lewis, Prif Weithredwr yr Urdd.

"Yn 2023, derbyniodd yr Urdd y nifer fwyaf erioed o geisiadau gan rieni ac ysgolion ers sefydlu ein Cronfa Cyfle i Bawb, ac rydym mor ddiolchgar i bawb a wnaeth hi'n bosibl i ni gynnig gwyliau i dros 100 o blant yn ein gwersylloedd haf.

"Rydym wedi mwy na dyblu ein targed ar gyfer 2024 er mwyn cynnig gwyliau i 250 o blant a phobl ifanc na fyddai'n cael cyfle i fwynhau gwyliau haf fel arall. Fel sefydliad ieuenctid cenedlaethol rydym yn gyson chwilio am ffyrdd i sicrhau nad yw sefyllfa ariannol teulu yn golygu bod rhaid i blentyn golli cyfle."

Bydd modd i rieni neu ysgolion wneud cais am wyliau ar ran plentyn yn fuan yn 2024.

I holi mwy am sut y gallwch gyfrannu, neu i wneud cais am wyliau ar ran plentyn ewch i wefan yr Urdd – www.urdd.cymru/cy/cefnogi/cronfa-cyfle-i-bawb, ebostiwch cronfa@urdd.org, neu ffoniwch 01239 652144.






# Ysgol Llanrug



**Perfformio yn y Galeri**
Llongyfarchiadau i'r ddwy yma am berfformio yn wych  gyda band rhanbarth Caernarfon yn y Galeri. Da iawn genod.








**Tynnu llun**
Llongyfarchiadau enfawr i Nanw a Guto am ddod yn ail yng nghystadleuaeth tynnu llun Dreigiau Cadi, Cymeriadau newydd Cyw.

Llongyfarchiadau hefyd i bob un ohonoch ar eich llwyddiant mewn gala nofio, cystadleuaeth gymnasteg ac mewn sioe geffylau. Da iawn chi!






**Pontio**
Blynyddoedd 6 y dalgylch wedi mwynhau sesiynau pontio Iechyd a Lles ar hyd yr wythnos pawb wedi gweithio'n galed, pawb yn edrych ymlaen cael mynd eto yn y flwyddyn newydd!







**Plant Mewn Angen**
Casglwyd £510 tuag at Blant Mewn Angen!! Diolch o galon i bawb.





**Ymweliad Nyrs Ffion**
Roedd pawb yn y dosbarth derbyn wedi gwirioni i gael Nyrs Ffion yn y dosbarth pnawn ma. Sgwrs fuddiol iawn am ofalu am fabis ac am gadw'n iach. Diolch o galon i Nyrs Ffion ac i'w hwyres am ei helpu.



**Clwb Gwyddbwyll**
Dyma aelodau Clwb Gwyddbwyll (*Chess*) Bl 5&6 yn dysgu'r naill a'r llall sut i chwarae! Amser cinio hwyliog bob wythnos!

**Ffarwelio**
Rydym yn ffarwelio heddiw efo Miss Sophie Roberts ar ôl 8 mlynedd hapus a gweithgar yn Ysgol Gynradd Llanrug. Diolch enfawr i Miss Roberts am ei ymroddiad di flino. Pob lwc yn dy swydd newydd.





**Technocamp**
Daeth y criw technocamp draw yn ddiweddar ac fe gafodd pob dosbarth gyfle i ddysgu am godio.



# Cyngor Cymuned Llanrug

## COFNODION CYFARFOD 17eg Hydref 2023

**1. Derbyn croeso gan y Cadeirydd**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac eglurodd y trefniadau ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a oedd angen siarad yn ystod y cyfarfod.

**2. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 19eg Medi 2023**
Cadarnhawyd y Cofnodion yn gywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

**3. Materion yn codi o Gofnodion 19eg Medi 2023**
Adroddwyd am gyflwr y wal gyferbyn ag Ysgol Brynrefail a dywedodd y Cynghorydd Beca Brown ei bod wedi adrodd ar hyn sawl gwaith wrth Gyngor Gwynedd ac wedi anfon lluniau, ond ddim wedi derbyn ymateb.

**4. Cynnig (gan y Cyngh. Rhys Parry):** 'Bod Cyngor Cymuned Llanrug yn gwrthwynebu unrhyw fwriad honedig gan Gyngor Gwynedd i werthu tri-chwarter y tir sydd wedi ei leoli nesaf at Ysgol Gynradd Llanrug ar gyfer adeiladu dau dŷ'. Penderfynwyd: 'Bod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi'r uchod a'i fod yn gwrthwynebu unrhyw fwriad gan Gyngor Gwynedd i adeiladu tai ar y safle. Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn i'r tir gael ei ddychwelyd i'r Adran Addysg at bwrpas defnydd yr Ysgol'.

Cyn dod i'r penderfyniad hwn cafwyd pleidlais, a'r canlyniad oedd:

Cefnogi'r cynnig: 6
Ymatal pleidlais: 2

**5. Cynnig (gan y Cyngh. Rhys Parry):** 'Bod Cyngor Cymuned Llanrug yn gefnogol i unrhyw ddeiseb sydd yn cylchredeg i wrthwynebu gwerthu unrhyw lain o dir sydd wedi ei leoli besaf at Ysgol Gynradd Llanrug'.

Penderfynwyd: 'Bod Cyngor Cymuned Llanrug yn cefnogi unrhyw ddeiseb sydd yn cylchredeg ar sail i wrthwynebu unrhyw fwriad gan Gyngor Gwynedd i adeiladu tai ar y safle ac yn galw am ddychwelyd y tir i'r Adran Addysg at ddefnydd yr Ysgol'.

**6. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent:**

- Cais Mynwent y Flwyddyn yn llwyddiannus: Gwobr Arian. Angen trefnu sesiwn tynnu lluniau.
- Arwyddion i'r giatiau yn y Fynwent (wedi eu harchebu).
- Polisi cofebion wedi'i fabwysiadu; copi ar gael.
- Cadarnhad nad yw'r cwt yn y Fynwent yn cynnwys RAAC: diolch i Berwyn P Jones am ei help.

Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am yr Adroddiad.

**7. Derbyn Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

- Nodwyd fod dyddiadau casglu sbwriel wedi eu rhoi ar dudalen Facebook y Cyngor.
- Cyfarfod o'r Pwyllgor wedi ei drefnu ar gyfer 24ain Hydref 2023 am 6:00.
- Menter Fachwen wedi bod yn plannu Cennin Pedr ar hyd y fro.
- Aelod o staff Menter Fachwen wedi bod yn gweld y goeden yng Nghwm y Glo er cof am y diweddar Gynghorydd Brian Jones ac wedi gallu cadarnhau fod y goeden yn iawn.
- Adroddwyd fod angen gwaith ar ffens Cae Chwarae Nant y Glyn ar frys.
- Angen adnewyddu darn o ffens newydd ar gyfer Pwll Moelyn.
- Ar gyfer torch ar gyfer Sul y Cofio, ac er cydymffurfio â pholisi'r Cyngor o leihau ar ddefnydd o blastig, cytunwyd i brynu torch am y flwyddyn yma. Ar ôl ei defnyddio, ei chadw'n saff ar gyfer flwyddyn nesaf ac yna talu'r ffi am y dorch fel cyfraniad.

Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am yr adroddiad.

**8. Derbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

- Mae ein cais am grant oddi wrth Gist Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus am yr uchafswm sef £3,000.
- Bydd yn bosib i ni ddarparu bara ac wyau hyd at ddiwedd mis Ionawr 2024.
- Bod elw o gyngerdd nos Sadwrn yn cael ei roi i'r cynllun bwyd.
- Adroddwyd fod y nifer sydd yn derbyn y pecynnau bwyd yn sefydlog gyda dim llawer o newid yn y rhai sydd yn eu derbyn yn wythnosol.

Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am yr adroddiad.

**9. Derbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug**
Adroddwyd gan y Cyngh. Philip Roberts, cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol.

- Wedi mynychu 3/4 o gyfarfodydd 2022-23 a mynychu dau sesiwn hyfforddiant ar lein (Anwytho; Cwricwlwm Cymru).
- Wedi mynychu cyfarfod cyntaf y flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi - cyfarfod sy'n cyhoeddi blaenoriaethau, cynlluniau, ethol aelodau o'r Corff i bwyllgorau arbennig, mabwysiadu polisiau ac yn y blaen.
- Yr wyf am fynychu tri sesiwn hyfforddi yn 2023-24: Hunan arfarnu effeithiol; , Corff Llywodraethol fel Cyfeillion Beirniadol; Diweddariad ar y Cwricwlwm i Gymru. Materion sydd wedi eu trafod: Capasiti yr Ysgol; Hyfforddiant i staff (yn enwedig lles, diogelwch plant); Paratoi ar gyfer Estyn; Amgylchedd yr Ysgol – sef parcio; palmentydd; Tŷ'r Ysgol; agweddau o'r cwricwlwm newydd.

Penderfynwyd: Derbyn, a diolch am yr adroddiad.

**10. Derbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones, sef aelodau dros Gwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**11. Ceisiadau Cynllunio**
Dim.


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Tachwedd, 2023

## COFNODION CYFARFOD 3ydd Hydref 2023

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

**MATERION O'R COFNODION**
**Meinciau**- Wedi archebu 2 fainc ac mae 'r meinciau eraill wedi cael eu peintio cyn y gaeaf.

**Llwybr o Gae Corniog** - Mae'r llwybr yn glir, ond mae angen arwyddion ar y llwybr i ddangos y ffordd trwy'r cae.

**Chwynnu Tre Gof** - Y clerc i gysylltu ag adran tacluso cymunedau,

**GOHEBIAETH A MATERION ERAILL**
**Llythyrau Diolch** - Derbyniwyd llythyrau diolch am roddion ariannol gan Glwb Rhiwen, Pwyllgor Neuadd Penisarwaun a Chlwb Bro Bethel.

**Cysgodfan Cae Glas, Rhiwlas** - Derbyniwyd llythyr cais am gysgodfan gan Elfyn Jones Roberts. Rydym yn ymwybodol nad oes cysgodfan yma, ac mae'r pwynt wedi cael ei godi yn y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag gyda cysgodfannau yn costio oddeutu £8 000 yr un, mae'n amhosib ystyried mwy nac un cais y flwyddyn. Felly, gan fod hwn yn gais ar safle sydd yn hollol newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor Cymuned yn gyntaf gysylltu gyda'r adran yng Nghyngor Gwynedd, i weld os yw'n bosib gosod Cysgodfan ar y safle i gydymffurfio â rheolau Iechyd a Diogelwch. Unwaith cawn gadarnhad o hyn, byddwn wedyn yn gallu symud ymlaen i chwilio am gysgodfan addas o fewn y gyllideb.

**CYNLLUNIO**
Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:
**C23/0770/18/DT - Dolwen, Llanrug**
Cais i ddymchwel ystafell wydr, codi ystafell wydr newydd ac ymestyn tŷ presennol i ffurfio llawr cyntaf. Dim Gwrthwynebiad.

**Canllawiau Rhoddion Ariannol**
Penderfynwyd fod angen edrych ar y canllawiau, ac yn wir gosod canllawiau ar gyfer ceisiadau i roddion ariannol. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod gyda thystiolaeth gadarn ein bod yn rhoddi arian i gymdeithasau er budd ein cymunedau. Mae'n rhaid felly sicrhau fod y manylion cywir gennym wrth ystyried rhannu rhoddion. Mae angen gwybodaeth pam ac i ba reswm bydd yr arian yn cael ei wario. Un broblem rydym yn weld yn flynyddol ydy diffyg gyrru Mantolen Ariannol wedi ei ardystio. Felly, dros y misoedd nesaf bydd y Cyngor yn creu canllawiau a ffurflen fydd yn rhaid i gymdeithasau eu gyrru yn flynyddol i'r Cyngor ystyried eu cais.

**Trafodaeth Gychwynnol Cyllideb**
Yn flynyddol, mae'r Cyngor yn gorfod edrych ar y gyllideb, er mwyn penderfynu ar praesept. Nod y Cyngor, eto eleni, yw cadw'r praesept mor isel â phosib fel ein bod yn ceisio cadw'r gost i lawr i deuluoedd sydd o dan bwysau, yn sgil effaith costau byw uchel. Mae'r Praesept dros y 3 mlynedd ddiwethaf wedi bod yn £31,000 sydd ar gost eleni ar dai mewn Band D yn £16.56 y flwyddyn. Bydd y praesept yn cael ei osod ym mis Ionawr.

**O GWMPAS Y BWRDD**
**Neuadd Rhiwlas** - Dywedodd y Cynghorydd Elwyn Jones fod pwyllgor Neuadd Rhiwlas wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i dderbyn grant o SPF i roi cynllun solar a batri i mewn, fydd yn galluogi'r neuadd dorri lawr ar gostau ynni yn y dyfodol. Newyddion gwych.

**Priffordd ger Tŷ Mawr ar yr A4022** - Mae yna dwll mawr yn y ffordd lle mae pob cerbyd yn gorfod symud i'r ochor i osgoi, gan fod yn ganol ffordd ceir. Mi fuasai'n gallu achosi damwain, ac yn sicr yn creu niwed i geir sydd yn mynd i'r twll, neu ddim yn ymwybodol ohono.

**Caban Brynrefail -** Cafwyd ymateb gan Berwyn Parry Jones o drafodaeth a fu mewn cyfarfod i drafod dyfodol y Caban ym Mrynrefail. Roedd cyfarfod wedi ei drefnu gyda Chyngor Gwynedd a'r 4 cyfarwyddwr sydd ar ôl, i drafod y les sydd yn dod i ben o fewn pedair mlynedd. Pan gychwynnwyd ar y fenter yma roedd yna gynrychiolaeth o'r pentref, ac o'r Cyngor Cymuned, ond rhywsut, mae hynny wedi cael ei ddileu. Mae'r Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sirol yn awyddus i ail godi'r sefyllfa yma yn ôl fel bod fwy o fewnbwn yn cael ei roi o'r gymuned. Mae Berwyn wedi cynnig hyn iddynt, ond nid oes ymateb wedi bod hyd yn hyn. Mae Cyngor Gwynedd yn barod i roi trafodaeth ac i ystyried estyniad i'r les, ond yn cytuno bod rhaid cael mwy o drafodaeth a chydweithio yn y gymuned. Nid oes ganddynt gynllun busnes chwaith ar hyn o bryd, felly bydd y trafodaethau yn parhau, gan obeithio sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Caban.

## Helpwch Sion Corn i gyrraedd y goeden Nadolig



# Garddio

**IONAWR**
Mae hi'n oer fel arfer ym mis Ionawr a rhaid cyfaddef bod hi'n oer yma wrth i mi deipio hwn! Yr Wyddfa, Eilio, Moel Cynghorion a'r Carneddau'n wyn - ond oherwydd newidiadau i'r hinsawdd, does wybod sut bydd hi erbyn mis Ionawr. Os bydd hi'n oer a rhewllyd, ceisiwch roi cysgod i'ch planhigion mwyaf tyner neu rhowch orchudd drostynt, gan groesi bysedd na fydd y gwynt yn eu gwasgaru hyd y fro.

Cofiwch ddal ati i fwydo'r adar. Mae'n bwysig hefyd i sicrhau bod dŵr glan ar eu cyfer, bydd angen dadmer dalwyr dwr, ben bore os ydy wedi rhewi ac ail lenwi efo dwr cynnes efallai yn ystod y dydd.

Os ydy hi'n rhy oer i fentro allan i'r ardd dyma'ch cyfle i gynllunio ar gyfer plannu blodau a llysiau yn 2024!

Mi ydw i wedi dal ati i gadw dyddiadur garddio a natur eleni, ond yn sylwi mod i'n anghofio weithiau os ydy hi wedi bod yn gyfnod prysur yn yr ardd neu os ydw i wedi bod yn crwydro. Ta waeth, mae'n eithaf cyflawn ac mae edrych yn ôl dros y ddwy flynedd ddiwethaf reit ddiddorol. Rhaid cyfaddef, mod i'n anghofio gwirio beth sy'n cysgu dan y pridd weithiau ac yn trio plannu rhywbeth newydd yn lle mae yna eisoes wedi ei blannu. Fy adduned blwyddyn newydd yw ceisio gwneud rhyw fath o dabl o bryd a beth sy'n digwydd ym myd natur, yn yr ardd a thu hwnt e.e. pryd mae'r eirlys gyntaf yn dod i'r wyneb, pryd glywsom ni'r gog am y tro cyntaf, pryd welsom ni wennol ayyb. Wna'i gyfaddef llwyddiant neu fethiant i chi ym mis Ionawr 2025!

Chefais i fawr o hwyl ar y moron eleni. Plannais nhw fel arfer, ond mewn cafn plastig (sy'n edrach fel metel) yn lle bocs ailgylchu. Dwi'n meddwl mai'r tywydd oedd y brif broblem, roedd hi'n oer, felly rhoddais hen ffenest wydr drostyn nhw. Yna daeth hi'n chwilboeth a dwi'n meddwl bod y dyfrio wedi chwalu'r hadau. Wnes i ail-hadu ac mi ddaeth ychydig, ond dim hanner cystal ag arfer. Doedd ysgallddail yr enfys (*rainbow chard*) fawr gwell, er iddynt fod yn hynod lwyddiannus llynedd. Eto dwi'n meddwl iddi fod yn rhy boeth iddynt. Dwi wedi ail-blannu ond maent i'w gweld yn well mewn potiau mawr nag yn y 'raised beds'. Ar y llaw arall mae gen i gnwd da o gennin a broccoli (ar ôl prynu planhigion bach o'r ganolfan arddio ddiwedd yr haf). Yn sicr mae wedi bod yn ddigon oer i wneud cawl cennin. Mae'r sgewyll (sprouts) piws hefyd wedi dal ati er gwaethaf sawl storm ac roedden nhw'n



hynod flasus ddiwrnod Nadolig efo'r twrci a ballu.

Dwi eisoes wedi plannu garlleg (o'r rhai dyfais yn 2023) ac wedi cadw tatw hadyd *Pink Fir Apple* i'w plannu ymhellach ymlaen yn y flwyddyn ac wedi mwynhau sawl pryd blasus ohonynt. Dwi hefyd fel rhyw wiwer, wrthi'n hel hadau o wahanol flodau i'w tyfu flwyddyn nesaf ac yn gadael rhai sydd wedi hadu yn yr ardd i gymryd eu siawns, os ydynt wedi landio yn rhywle call.

Y fenter ddiweddaraf oedd tyfu '*chrysanthemums*' (gweler Eco Rhagfyr 2023) ac mi fyddai'n sicr yn parhau i'w tyfu yn 2024 gan eu bod yn parhau yn y tŷ ar ôl eu torri am amser hir.

Bu'r *chillies* yn fethiant. Mi a'i nôl i'r *Chilli de Cayenne* neu debyg, flwyddyn nesaf, gan fod rhai eleni, er wedi tyfu'n blanhigion mawr, fod yn siomedig o ran cnwd. Lwcus bod gen i stoc yn y rhewgell ers y flwyddyn cynt!
Bu'r ciwcymbyrs yn ffrwytho am fisoedd a'r tomatos amrywiol yn fendigedig.

**Tasgau**
1. Pan fydd rhialtwch y Nadolig drosodd, gallwch droi eich coedan Nadolig go iawn i mewn i ddeunydd defnyddiol i'r ardd. Torrwch yr holl ganghennau a defnyddiwch y bonyn y flwyddyn nesaf fel polyn i gynnal planhigion eraill. Trwy dorri'r canghennau'n ddarnau man gallwch insiwleiddio potiau bach mewn ffrâm oer (*cold frame)* neu dŷ gwydr. Fel arall, gallwch eu darnio i wneud taenfa. Os nad oes ganddoch beiriant darnio, gadewch i'r nodwyddau sychu'n naturiol a disgyn i ffwrdd, cyn eu taenu dros y pridd. Mae unrhyw ganghennau sydd ar ôl yn llawn *resin* a phan fyddant wedi sychu yn gwneud *firelighters* i bwll tân *(firepit*) neu farbeciw. Fel arall gallwch waredu'r goeden Nadolig yn eich bin brown (gan ei thorri i ffitio fel bo'r angen).
2. Os nad oes ganddoch gofnod o beth sydd wedi tyfu'n dda neu fethu, ceisiwch feddwl yn ôl ar beth oedd yn llwyddiannus neu'n fethiant, fel nad ydych yn gwneud yr un camgymeriadau.
3. Peidiwch â cherdded ar y lawnt os ydy wedi bwrw eira neu'n rhewi.
4. Os gawn ni dywydd braf (heb fawr o wynt) agorwch ffenestri eich tŷ gwydr. Cofiwch eu cau pan yw'n dechrau nosi.
5. Gosodwch fwced dros eich riwbob, Os ydach chi ffansi crymbl neu darten riwbob cynnar. Cofiwch fodd bynnag, allwch chi ddim gwneud yr un peth i'r planhigyn y flwyddyn ganlynol.
6. Mae modd plannu ambell beth o gael tywydd cymedrol. Gallwch godi, rhannu ac ail blannu planhigion lluosflwydd gwydn (*hardy herbaceous perennials).* Planhigion bythol wyrdd fel *bergenia* a *brunnera* yw'r rhai hawsaf. Fodd bynnag os welwch chi hen ddail mynawyd y bugail hardy gallwch godi'r gwreiddiau a'u hail blannu, gan wneud yn siŵr bod y goron jest o dan wyneb y pridd.
7. Plannwch rosod gwreidd-noeth (*bare-rooted*) gan ychwanegu peledi *mychorrhizal funghi* i'r twll. A deud y gwir gallwch blannu unrhyw blanhigyn prennaidd gwreidd-noeth yn ystod y mis yma, cyn belled nad ydy'r ddaear wedi rhewi.
8. Joban fach handi arall ydy tynnu pennau'r blodau a blannwyd ar gyfer yr hydref/gaeaf e.e. *pansies*, *cyclamen* a *bellis* i gael blodau ar ddyddiau cynhesach.

Mae yna wastad rywbeth i wneud mewn gardd, ond y peth pwysicaf yw mwynhau.

Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd!

**Rhosyn Mynydd**





# Ar ben arall i'r lein

Tydi amser yn hedfan! Blwyddyn arall wedi mynd fel y gwynt, ac erbyn y bydd yr adroddiad yma wedi dod trwy'r drws mi fydd ein llyfrau wedi cau a'r pwyllgor blynyddol o'r tu cefn i ni. 14eg o Ragfyr oedd y diwrnod pwysig yna! Sgwn i be fydd wedi codi ei ben yn y pwyllgor hwnnw? Wrth gwrs, cafodd yr *Eco* ragflas o'r noson y mis diwethaf trwy adroddiad ein Cadeirydd ar weithgareddau'r Clwb am y flwyddyn. Fel y gwelsoch, roedd llawer i'w drafod. Diolch o galon i Dr Parry am ei waith, yn enwedig am gadw trefn arnom ni oll. Mae honna'n '*job*' ar ei phen ei hun!

Gyda drysau 2023 wedi cau, be ddaw ein ffordd tybed pan fydd drws 2024 yn gil agor? Un peth sy'n bendant ar y gorwel yw sut mae ein pysgodfeydd am gael eu rheoli at y dyfodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru i weld mewn rhyw drwmgwsg o ran be sy'n mynd ymlaen. Yn ôl pob golwg, mae'n ymddangos ei fod yn trosglwyddo ei gyfrifoldebau trwy wahanol gyrff ac yn llwyr anwybyddu'r angen i gydweithio gyda sefydliadau a diddordebau lleol. Dyma un enghraifft lachar o anghyfiawnder: mae corff a adnabyddir fel 'Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru' – a ddisgrifiwyd fel corff nad yw'n canolbwyntio ar bysgota – wedi derbyn £249,000 oddi wrth y Loteri Treftadaeth am gynllun sy'n mynd dan yr enw 'Prosiect Torgoch'. Yn rhifyn Tachwedd, mi ofynnais pwy sy'n rhan o'r cynllun hwn? Wel dyma nhw i chi: Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor. Dim cyfeiriad o gwbl at y Gymdeithas Bysgota leol. A phwy sydd â'r diddordeb mwyaf yn y pysgodyn hyfryd yma, drwy hawliau pysgota ac eiddo sy'n ymwneud â'i thiriogaeth? Wel, y Gymdeithas leol wrth gwrs! A dyma i chi'r ateb a gawsom wedi i ni holi pam nad ydym yn rhan o'r gwaith. **'Hyd nes y clywir yn wahanol, mae'r llythyr hwn i'ch hysbysu eich bod wedi ein rhoi mewn sefyllfa ble bydd yn amhosib ceisio grantiau neu gyflawni unrhyw waith amgylcheddol o fewn dalgylch eich afonydd a llynnoedd. Bydd hyn yn effeithiol yn union. Ni fydd yr astudiaeth fawr hon i dorgochiaid Llyn Padarn yn cael ei effeithio. A ni cheisir cydweithrediad cymdeithas Seiont Gwyrfai a Llyfni yn y prosiect mawr yma.'**

Wel, dyna i chi dda yn de! A hyn oll am ein bod wedi meiddio â gwneud ymholiad ynglŷn â'r hyn oedd wedi ei gynnwys yn y cais i'r Loteri. Wedi cael manylion am y cais, fe gyflwynwyd ymholiadau i sylw'r Loteri am fod ein hawliau a'n diddordebau'n cael eu hanwybyddu. Wrth gwrs, doedd neb yn tybio y byddem yn cael sylw fel hwn yn ateb. **'Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau na fydd unrhyw waith yn digwydd ar dir y Gymdeithas'.** A dyma'r diweddglo gan lefarydd y Loteri: **'Mae hyn yn awr yn terfynu ein gohebiaeth ar y mater'.**

Diddorol felly fydd gweld sut bydd pethau'n datblygu. Ond mae un peth yn sicr: ni fydd yr un geiniog o'r arian cyhoeddus yma'n dod at waith sy'n mynd i wella a datblygu buddianau'r fro. Pwy goblyn sy'n plismona sut mae symiau fel hyn yn cael eu didoli a'u gwario tybed?

Mae adroddiad newydd ddod i law o ganlyniad i arolwg yn ymwneud â stoc eog a gwyniaid yng Nghymru. Drwy'r wlad gyfan, mae 23 o brif afonydd gyda rhediadau o'r eog, a'r Seiont yn un ohonyn nhw. O'r rhain, mae 21 wedi eu categoreiddio fel rhai sydd mewn perygl o golli'r eog yn gyfan gwbl. Yn ogystal, mae gan 33 o brif afonydd rediadau o wyniaid; ac o'r rhain, dim ond 4 sydd ddim mewn perygl o golli eu pysgod. Y newyddion da yw bod y Seiont a'r Llyfni ymhlith y pedair afon hynny. Y cwestiwn mawr yw: Sut allwn wella'r sefyllfa? O ran yr eog, mae pethau'n gymhleth: problemau mawr gyda llygredd carthffos a morol, gor-rwydo ac effeithiau'r ffermydd pysgod mawr oddi ar arfordir yr Alban. Mae yna ateb wrth gwrs; ond yn ei doethineb, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i atal stocio a chau deorfeydd oedd yn gweithio'n galed i geisio mynd i'r afael â'r broblem. O ran y gwyniadau, mae mwy o oleuni gan nad oes i'r pysgodyn hwn gymaint o grwydriad morol â'r eog: dyw'r pysgodyn hwn ddim yn crwydro ymhell o'i afon enedigol, ac felly mae'n llawer haws cadw golwg ar beth sy'n mynd ymlaen. Mi ymhelaethaf ar hyn yn y flwyddyn newydd.



Rwan ta, rwyf am droi nôl at y torgoch. Ond nid at yr arolygon a'r gwaith ymchwil sydd am gael ei ariannu o bob cyfeiriad! (Gwaith wrth gwrs sydd wedi ei wneud a'i ail wneud dro ar ôl tro dros y deg mlynedd diwethaf.) Dwi am droi yn hytrach at ein prif ddiddordeb, sef cael un neu ddau ar y bachyn ac i'r badell. Ac fel hyn aeth hi ar ddechrau Hydref.





Harvey Lord a David Alun George a'r helfa



Torgoch ar y bwrdd, gobeithio eich bod wedi mwynhau'r tiwna o rifyn Tachwedd

Ers rhyw flwyddyn, rwyf wedi bod mewn cysylltiad â rhai o 'sgotwyr torgoch Windermere, Enerdale a Conniston yn Ardal y Llynnoedd. Cymharu nodiadau fel petai. A wyddoch chi be? Mae'r problemau yno'n adlewyrchu'n union yr hyn sy'n digwydd yma: carthffosiaeth; chwyn ymledol; ac yn fwy na dim, difaterwch hollol ar ran ein hawdurdodau. Fodd bynnag, trefniadau eleni oedd i rai o'r criw o'r Llynnoedd ddod yma i drio eu ffordd unigryw o 'sgota torgoch, sef dull y genweiri hirion. Ac felly y bu pethau ar 15fed Hydref. A do, mi gawsom wers ardderchog gan y criw, sef Harvey Lord a David Alun George. Ond i dorri'r stori'n fyr, fe gafwyd pedwar torgoch i'r rhwyd, a dyma'r lluniau i dynnu dŵr o'r dannedd.

Fel arfer ar ddiwedd y flwyddyn bysgodfaol, mi fyddaf yn awgrymu fy nymuniadau i Siôn Corn am y flwyddyn newydd. Y cyntaf, wrth gwrs, yw am gael iechyd i allu dal ati i droedio'r glannau, a chael rhyw 'sgodyn bach nawr ac yn y man. Yr ail yw, wel gobeithio'n wir y daw rhai i ddefnyddio synnwyr cyffredin a chytuno i gydweithio er budd ein bro. Mi fyddaf, mwyaf tebyg, wedi meddwl am ragor cyn Noswyl Nadolig.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll.

**Huw Price Hughes**

# “Nadolig yw gŵyl yr eisteddfodau”




**Capel Disgwylfa, Deiniolen**

Dyna’r pennawd a ymddangosodd yn un o’r papurau wythnosol gant a hanner o flynyddoedd yn ôl yn ystod Nadolig 1873. Ac y mae’n ymddangos ei fod yn ddigon agos at y gwir. Roedd eisteddfodau’n cael eu cynnal mewn trefi led-led Cymru: ym Maesteg, Treforus, Dinbych, Aberystwyth, Porthmadog, Aberdar, Ystalyfera, Llangefni ac amryw o bentrefi hefyd, rhy niferus i’w henwi. Ond nid yn unig yng Nghymru y cynhelid eisteddfodau’r Nadolig. Roedd un yn Lerpwl, un arall yn Workington (gyda dros 800 o gynulleidfa), ac eisteddfod gadeiriol yn Middlesborough – yn gyfyngedig i Gymry gogledd Lloegr yn unig. Roedd eisteddfod hefyd yn Witton Park, pentref diwydiannol yn Swydd Durham. Ond beth tybed am fro’r ‘Eco’ ?

Methais â darganfod cofnod am eisteddfod yn unrhyw un o bentrefi’r fro, ond roedd cyfarfodydd cystadleuol ac adloniadol, ambell un yn gymysgedd o’r ddau. Cyfarfod felly a gafwyd yng nghapel Disgwylfa, Ebenezer ar y 24ain a’r 25ain o Ragfyr 1873, wedi ei drefnu gan Undeb Llenyddol Deiniolen. Diddorol yw nodi fod yr enw ‘Deiniolen’ eisoes yn cael ei ddefnyddio bryd hynny. Mae enw’r gymdeithas a drefnodd y cyfarfod yn awgrymu mai ‘llenyddol’ yn hytrach na ‘cherddorol’ oedd ei phrif ddiddordeb, ond ar y noson cyn y Nadolig, cerddorol oedd rhan helaethaf y cyfarfod, a’r mwyafrif ohono’n gystadleuol. Roedd deg yn cystadlu ar yr unawd; pedwar yn cystadlu ar y pedwarawd (i gyd yn aelodau o Gôr Eryri), tri chôr yn cystadlu ar y dôn ‘Llanddewi’, a phump o gorau ‘glee’ yn canu ‘Y Blodeyn Olaf’. Mae’r pump côr ‘glee’ yn cael eu henwi: Ysgoldy, Cefnywaen, Eryri, Disgwylfa a Bethel. Côr ‘glee’ Cefnywaen oedd yn fuddugol. Roedd hefyd gystadleuaeth canu tôn ar y pryd, gyda phump o gorau’n cystadlu, a Chôr O. T. Owens, Ebenezer aeth â’r wobr. Bu’n rhaid gwrando ar eitemau corawl ddeunaw o weithiau yn ystod y noson, ac o gynnwys y pedwarawdau a’r deg solo, dyna 32 o eitemau cerddorol mewn noson! Y beirniad oedd John Thomas, Blaenannerch. Tybed a oedd hwn wedi teithio i Ebenezer yr holl ffordd o Sir Aberteifi neu a oedd ar daith yn y gogledd ar y pryd? A faint tybed fu’n rhaid talu iddo am ei wasanaeth?

Y diwrnod canlynol, sef Dydd Nadolig, cynhaliwyd cyfarfod arall yn y prynhawn am 1.00 o’r gloch. Beirniadaethau ar wahanol gystadleuthau cartref oedd prif waith y prynhawn, gydag eitemau cerddorol gan Gôr Disgwylfa. A dyma i chwi flas ar yr hyn y bu trigolion Ebenezer a’r cylch yn chwysu drostynt yn yr wythnosau cyn y Nadolig. Traethawd ar y testun ‘Y bachgen yw tad y dyn’ (ymgeisiodd tri). Cyfansoddi tôn (ymgeisiodd deg). Cyfansoddi cân ar destun ‘Y Môr’ (Dewi Orwig oedd yn fuddugol). Traethawd: ‘Taith Israel o’r Aifft’ (ymgeisiodd tri). Traethawd: ‘Hanes Esther’. Traethawd: ‘Peryglon Merch Ifanc’. Roedd Côr Disgwylfa’n diddanu’r gynulleidfa rhwng y gwahanol feirniadaethau a’r gwobrwyo, a chafwyd anerchiad hefyd ar ‘Ddull trigolion yr ardaloedd hyn yn cynnal y Nadolig’.

‘Gormod o bwdin dagith gi’, meddai’r hen ddywediad, ond doedd cyfarfod ar bnawn Nadolig yn amlwg ddim digon o bwdin i gynulleidfa Ebenezer – roedd cyfarfod eto fyth yn ystod yr hwyr, a hynny dan gadeiryddiaeth Samuel Jones, perchennog Melin Glandinorwig. Digon tebyg i gyfarfod y prynhawn oedd y patrwm – beirniadaethau a gwobrwyo traethodau a holiaduron, a mwy o ganeuon gan Gôr Disgwylfa. A’r un oedd naws y testunau: Traethodau ar ‘Y Cyfansoddiad Prydeinig’, ‘Defnyddiau Ymborth’, ‘Addysg’ a ‘Cyfalaf a Llafur’ gyda hyd at bump yn cystadlu ar bob traethawd. Roedd yn amlwg hefyd fod gwahanol holiaduron wedi eu rhannu ymlaen llaw i aelodau’r Undeb Llenyddol, a hynny ar destunau megis ‘Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth’, a ‘Darlithiau ar Ysbrydoliaeth y Beibl’.

Ar ddiwedd diwrnod trwmlwythog o feirniadaethau a chaneuon corawl, roedd gohebydd Ebenezer yn falch o gyhoeddi iddynt fod yn *“wir hapus a llwyddiannus”*. Cewch chwi benderfynu faint o gystadlu fyddai heddiw pe bai urhyw gymdeithas neu unrhyw eisteddfod yn cynnig y testunau uchod ar eu rhaglen.

Doedd dim eisteddfod yn Llanberis yn ystod y Nadolig, ond roedd cyfarfod cystadleuol Undeb Llenyddol Dinorwig a Llanberis wedi ei gynnal ddiwedd Tachwedd yn y ‘Concert Hall’, Llanberis.

Gofidio am dymor y Nadolig a wnai gohebydd newyddion Llanberis gan ddyfynnu’r cwpled canlynol:

*“O’r fath gyfnewidiad sy’r awrhon yng Nghymru*
*Rhagor yr amser pan oedd Bess yn teyrnasu.”*

Beth felly, yn ei farn ef, oedd wedi newid erbyn cyrraedd y flwyddyn 1873? A’i ateb oedd: haelioni’r cyfoethogion tuag at y tlodion. Mae’n adrodd y *“llamai calonnau y tlodion ... gan yr arferai aml fonheddwr elusengar ac aml ffermwr cyfoethog ladd eidion tew neu ddefaid pasgedig a darnio eu cig yn gannoedd o ddarnau”* – i’w rhannu i’r tlodion ar fore Nadolig. Mae’n nodi hefyd fel y byddai *“boneddigesau yr hen amseroedd”* yn cyfrannu dilladau cynnes *“er cuddio llawer cefn llwm”*. Ond, yn anffodus, meddai, roedd yr arferion hyn yn prysur ddiflannu. Tybed a oedd amgylchiadau’r oes wedi gwella? Mae’n ymddangos fod y gohebydd yn credu hynny, oherwydd dywed fod *“bron pawb”* wedi cael gŵydd dew, darn bychan o gig eidion a *“chryn glogwyn o bwdin”*. Byddai wedi bod yn werth gweld y pwdinau hyn!

**Hen goelion tymor y Nadolig**

Dau blanhigyn pwysig iawn ym mywyd y werin ers talwm oedd celyn ac eiddew. Roedd y ddau yn cael eu defnyddio i addurno’r tŷ, ond ni ddylid eu gosod i fyny tan Noswyl Nadolig. Y gred oedd fod aeron y celyn yn gof am waed Crist, a phigau’r dail yn cynrychioli’r Goron Ddrain. Dyna’r goel grefyddol. Hollol wahanol oedd y traddodiad ynglŷn â’r eiddew. Byddai’r eiddew yn ffrwytho yn dilyn rhew caled tua’r adeg hon o’r flwyddyn, a’r aeron duon, o’u bwyta cyn yfed alcohol, yn cadw rhywun rhag meddwi. Ond os oedd rhywun yn anghofio gwneud hynny, ac yn dioddef o’r penmaenmawr chwedlonol, yna yfed dŵr wedi ei ferwi yn cynnwys dail eiddew oedd y feddyginiaeth orau.

Mae coel hefyd ynglŷn â’r unfed ar hugain o Ragfyr, sef Alban Arthan. O ba gyfeiriad bynnag y bo’r gwynt yn chwythu ar y dydd hwn am hanner dydd, yno yr arhosai am y chwe wythnos nesaf. Ond byddwch yn ofalus ar yr wythfed ar hugain o Ragfyr – y dydd mwyaf anlwcus o’r holl flwyddyn. Pam? Oherwydd arferai pobl gredu mai dyma’r diwrnod y rhoddodd Herod orchymyn i ladd pob bachgen dan ddwyflwydd oed ym Methlehem.

Ac i orffen ar thema eisteddfodol. Yn ystod gwyliau’r Nadolig yn y flwyddyn 1176 y cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf y mae cofnod ohoni – yn Aberteifi.

Os oes gennych ymholiad am unrhyw agwedd o hanes lleol y fro yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA neu ffoniwch 01286673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com

## Cornel Ddarllen

Mae'n dechrau prysuro, a nifer fawr o lyfrau newydd wedi cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnig digon o ddewis o lyfrau i blant ac oedolion i'w rhoi yn anrhegion Nadolig. Mae 10 Uchaf mis Tachwedd yn adlewyrchu prysurdeb y digwyddiadau 'da ni wedi bod yn ddigon ffodus i fod yn rhan ohonynt, ac mae nosweithiau o'r fath yn ffordd dda iawn i ddod i wybod mwy am lyfrau, ac i drafod llenyddiaeth.

Mi fyddwn ni ar agor bob dydd nawr tan y Nadolig, ac mae 'na dîm bychan ond brwdfrydig a gweithgar y siop yn barod i'ch helpu i ddewis a dethol yr anrhegion perffaith ar gyfer pob aelod o'r teulu. Os na fedrwch gyrraedd y siop, mae 'na rywun ar gael ar ben arall ffôn neu e-bost i ymateb i'ch ymholiadau, a chroeso i chi archebu ar lein hefyd.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a diolch am eich cefnogaeth i ddarllenwyr yr Eco gan bawb ym Mhalas Print.


**Dyma'n 10 uchaf ni ar gyfer Tachwedd 2023**:

1. **Y Cylch** - Gareth Evans-Jones
2. **Trothwy** - Iwan Rhys
3. **Going Nuclear** - Mabon ap Gwynfor
4. **Y Delyn Aur** - Malachy Edwards
5. **Casa Dolig** - Rhian Cadwaladr
6. **Mae'r Haul wedi dod i Wrecsam** - Geraint Lovgreen
7. **The Folklore of Wales:Ghosts** - Delyth Badder a Mark Norman
8. **Sain Ffagan 75** - gol. Ifor ap Glyn a ffotograffiaeth Richard Outram
9. **Gwreiddio** - amrywiol awduron
10. **Yr Apêl** - Mererid Hopwood, Jenny Mathers










Eirian James



# CWIS CHWARAEON 2023

**Gobeithio caiff darllenwyr yr Eco hwyl ar y Cwis Chwaraeon hwn dros gyfnod y Nadolig. Mae wedi ei baratoi gan Elgan a Mared Rhys! Mae'r atebion ar** **dudalen 26**










## CWESTIYNAU

1. Pwy enillodd y Ryder Cup a'r Solheim Cup? Ewrop neu'r UDA?
2. Fe wnaeth 4 chwaraewr pêl-droed ymddeol o dîm rhyngwladol Cymru eleni. Enwch y 4.
3. Pwy enillodd Gwpan Rygbi'r Byd?
4. Ym mha gamp enillodd Jonny Clayton a Gerwyn Price Gwpan Byd i Gymru?
5. Pa dîm pêl-droed enillodd Uwch Gynghrair Lloegr, Cwpan FA a Chynghrair y Pencampwyr?
6. Pwy enillodd Gwpan Criced y Byd?
7. Ym mha dair camp y bu Cymru'n cystadlu mewn Cwpanau Byd eleni?
8. Fe wnaeth tîm pêl-droed dan 17 Cymru gyrraedd Pencampwriaethau Ewrop am y tro cyntaf. Ym mha wlad oedd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal?
9. Pa record byd i ferched a dorrodd Tigst Asseva o Ethiopia ym Merlin eleni?
10. Pwy yw'r bocsiwr o Gymru ddaeth yn Bencampwr Byd?
11. Pwy enillodd y Bencampwriaeth F1?
12. Beth oedd enw'r dyfarnwraig o Gymru oedd yn dyfarnu yng Nghwpan Merched y Byd FIFA?
13. Beth oedd enw'r ceffyl ddaeth yn fuddugol yn y Grand National?
14. Enillodd Markéta Vondroušová Dwrnament Wimbeldon y Merched. O ba wlad y daw hi?
15. Pwy enillodd Gystadleuaeth Golff y Meistri?
16. Luca Brecel oedd enillydd Pencampwriaeth Snwcer y Byd. Pwy oedd ei wrthwynebydd yn y ffeinal?
17. Pwy enillodd Gwpan Merched y Byd FIFA?
18. Cyhoeddodd Alun Wyn Jones ei fod yn ymddeol o rygbi. Sawl cap enillodd i Gymru?
19. Isacco Costa oedd enillydd Ras yr Wyddfa. Un o ba wlad ydi o?
20. Pa ddinas Ewropeaidd fydd yn cynnal y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd y flwyddyn nesaf?

# LLANRUG

**Diolch**
Dymuna Carole ac Albert Lynes a'r teulu, Tŷ Newydd, Llanrug ddiolch i bawb am y negeseuon caredig, y cardiau a'r rhoddion yn dilyn eu profedigaeth drist o golli eu mam sef Mrs Jean Dorricott, Amlwch. Roedd hi'n fam, yn nain a hen nain arbennig iawn, a bydd colled fawr ar ei hôl i'w theulu oll. Rydym yn anfon cydymdeimlad dwysaf atoch chi ac yn meddwl amdanoch.

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau i Elen Wyn Roberts, 7 Afon Rhos ar ei dyweddïad gydag Iorwerth Lewis. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.

**Capel y Rhos**
Anfonwn ein cyfarchion cynnes at ein haelodau a chyfeillion sydd yn methu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd oherwydd salwch. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda iddynt.

Gair i atgoffa pawb fod llyfrau'r capel yn cau ddiwedd Rhagfyr. Gofynnir yn garedig i bawb anfon eu cyfraniadau cyn hynny.

**Oedfaon Mis Ionawr**:
7fed Ionawr - Parch R O Jones
14eg Ionawr - Mr Eurfryn Davies
21ain Ionawr - Y Barch. Nerys Griffiths, ein gweinidog
28ain Ionawr - Canon Idris Thomas

**Profedigaeth**
Yn dawel yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd ar 25ain o Dachwedd, bu farw Gloria Elizabeth Roberts o 18 Bro Rhythallt, Llanrug. Mam gariadus Alan, Wendy, Cynthia, Jackie a Fiona, mam-yng-nghyfraith hoff, nain a hen nain annwyl, chwaer dyner Angela a ffrind i lawer, o bell ac agos. Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch chi fel teulu a ffrindiau ac rydym yn meddwl amdanoch yn y cyfnod anodd yma.

**Merched y Wawr Llanrug**
Nos Fawrth, 14eg Tachwedd, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd Bethanne. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad, gyda Megan yn cyfeilio.

Derbyniwyd ymddiheuriadau a chyflwynwyd planhigion tŷ i Carolyn ac Avril wedi'u triniaeth yn yr Ysbyty. Dymunwyd yn dda i'r rhai fu'n cystadlu, neu'n ymweld â'r, Ffair Aeaf yn Llanelwedd ar 27ain a 28ain o Dachwedd.



Rhai o aelodau Seindorf Arian Llanrug a disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen ar noson rhoi'r goleuadau Nadolig ymlaen yng Nghaernarfon. Hefyd yn y llun mae'r Aelod Seneddol Liz Saville-Roberts.

Prosiect y Llywydd Cenedlaethol 2023-24, Geunor Roberts, yw Ambiwlans Awyr Cymru, a byddwn yn casglu sgarffiau a chadwyni erbyn Cyfarfod Ionawr.

Rhaghysbysir 'Caffi Eisteddfod Cylch yr Urdd, oed Cynradd' dydd Sadwrn 24ain Chwefror yn Ysgol Brynrefail.

Diolchwyd i Mary, Mair Noel, Yvonne ac Amanda am gynrychioli'r Gangen yn y 'Cwis Hwyl', gyda marciau da iawn a'r criw yn mwynhau noson hwyliog dros ben.

Yn dilyn, cawsom gwmni hawddgar y darlledwr Dei Tomos gyda chasgliad o luniau trawiadol a sgwrs ffraeth a difyr am fro ei febyd, 'Y Nant a'r Betws'. Cyflwynodd luniau arbennig o Gwm Gwyrfai – cynefin T. H. Parry-Williams, mynydd Drws y Coed, Carreg Collwyn (Pitt's Head), Llyn y Dywarchen, Chwarel Glanrafon, llwybrau'r Wyddfa, Cwellyn, Ysgol Betws Garmon, Eglwys Nant, Pont y Betws a nifer o lefydd hyfryd eraill a ddylanwadodd ar ei yrfa ddisglair.

Diolchwyd iddo am orig hynod o ddifyr ac addysgiadol.



Bu'r Gangen yn dathlu ar 12fed Rhagfyr gyda chinio Nadolig yn 'Y Wal', Caernarfon am 5 o'r gloch.

**9fed Ionawr 2024** – Edrychir ymlaen at noson yng nghwmni Iwan Roberts gyda 'Disgwyl y Post'. Croeso cynnes o hyd i aelodau newydd ymuno â ni.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Fendithiol i bawb yn 2024.

**Cyngerdd Nadolig Seindorf Arian Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris**
Fe fydd Band Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris yn cynnal eu cyngerdd Nadolig blynyddol yn Eglwys Llanberis am 5.00pm ddydd Sul, 17eg Rhagfyr. Noson i bawb gael canu carolau a gwrando ar berfformiadau gan y seindorf a'r côr. Dim tâl mynediad, ond fe fydd casgliad ar gyfer achosion da lleol.

**Cyfle i ennill arian a helpu mudiad lleol**
Mae Seindorf Arian Llanrug wedi ail-sefydlu Clwb Cant er mwyn casglu arian misol angenrheidiol i dalu am gostau rhedeg y band a sicrhau ei pharhad.

Daeth y Clwb Cant gwreiddiol i ben ar ôl i'r band fynd drwy gyfnod anodd yn ddiweddar, yn rhannol yn sgil Covid. Nawr, gydag aelodau o'r seindorf wedi gweithio drwy 2023 i gael y band yn ôl ar ei thraed, fe fydd y Clwb yn ail-gychwyn ar ddechrau 2024. Am £2 y mis, fe fydd pob chwaraewr yn derbyn rhif, a bob mis fe fydd tri rhif yn cael ei dynnu allan o het - a'r tri yn ennill gwobr ariannol. Bydd unrhyw elw yn mynd tuag at gostau rhedeg y band - sy'n cynnwys gwresogi, trydan, yswiriant ag ati.

Daw'r ail-lansiad yn dilyn darlledu rhaglen Prosiect Pum Mil ar S4C fis Tachwedd pan ddaeth aelodau'r band a'r gymuned at ei gilydd i wneud gwelliannau i'r Cwt Band (mae'r rhaglen dal i'w weld am gyfnod ar S4C Clic a BBC iPlayer).

Yn ystod 2023 mae'r seindorf wedi adeiladu yn raddol ac wedi bod allan yn gyson dros y Nadolig yn chwarae carolau a chefnogi digwyddiadau lleol, ac mae'r niferoedd sy'n dod i'r band yn gyson wedi dyblu o'i gymharu gyda'r un cyfnod llynedd.

Os am fwy o fanylion ynglŷn â chefnogi drwy ymaelodi gyda'r Clwb Cant am £2 y mis, cysylltwch efo unrhyw aelod o'r band yn uniongyrchol, neu drwy e-bost (bandllanrug@gmail.com), tudalen Facebook y band, neu ffonio 07788 387013.

Mae croeso i unrhyw un sydd efo diddordeb ymuno efo'r band neu'r band ieuenctid, sy'n cael ei ail-sefydlu, gysylltu hefyd.

## CWIS CHWARAEON 2023

### ATEBION

1. Ewrop.
2. Gareth Bale, Joe Allen, Chris Gunter & Jonny Williams.
3. De Affrica.
4. Dartiau.
5. Manchester City.
6. Awstralia.
7. Rygbi'r Undeb, Hoci & Dartiau.
8. Hwngari.
9. Amser cyflymaf i redeg marathon.
10. Joe Cordina.
11. Max Verstappen.
12. Cheryl Foster.
13. Corach Rambler.
14. Gweriniaeth Tsiec.
15. Jon Rahm.
16. Mark Selby.
17. Sbaen.
18. 158.
19. Yr Eidal.
20. Paris.

# Ail-Gyfle i Gymru



Yn anffodus ni lwyddodd Cymru i gyrraedd Ewro 2024 yn Yr Almaen yn awtomatig. Ond nid yw'r freuddwyd ar ben. Yn dilyn Cynghrair y Cenhedloedd y llynedd, maent wedi hawlio lle yn y gemau ail-gyfle, a hynny'n rhoi siawns arall i gyrraedd Yr Almaen. Cyn edrych tuag at y gemau ail gyfle hynny, beth am gael golwg nôl ar gemau mis Tachwedd a gadarnhaodd y bydd Cymru'n gorfod cystadlu ynddyn nhw.

Roedd dwy gêm yn wynebu Cymru ym mis Tachwedd: Armenia oddi cartref a Twrci gartref. Cyn y gemau roedd Cymru'n gwybod fod y lle awtomatig cyntaf yn y grŵp wedi ei hawlio gan Twrci. Roedd un lle ar ôl felly. Roedd siawns i Gymru, Croatia neu Armenia hawlio'r safle olaf yma. Roedd y Cymry'n gwybod os bydden nhw'n ennill y ddwy gêm y byddai taith i'r Almaen yn eu disgwyl.

Armenia oedd y gwrthwynebwyr cyntaf, gyda'r Wal Goch yn teithio i Yerevan, prifddinas y wlad. Roedd Cymru eisoes wedi baglu yn eu herbyn gan golli 4-2 yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Roedd bechgyn Rob Page yn gwybod felly fod tipyn o her o'u blaenau. Yn dilyn perfformiad hynod arbennig yn erbyn Croatia ym mis Hydref roedd tipyn o hyder wrth fynd i'r gêm hon. Ond cafwyd ergyd i obeithion Cymru'n fuan iawn wrth i Armenia sgorio o fewn pum munud. Roedd perfformiad Cymru'n siomedig. Cafwyd ambell gynnig, ond roedd Cymru i weld mewn panig a'r pasio'n flêr. Daeth gôl i Gymru ar derfyn yr hanner cyntaf, ond nid chwaraewr Cymru oedd y sgoriwr. Fe sgoriodd Tiknizyan i'w rwyd ei hun. Amser perffaith i unioni'r sgôr. Y gobaith oedd y byddai Cymru'n rhoi perfformiad gwell yn ystod yr ail hanner gan gofio fod rhaid ennill mewn gwirionedd. Doedd perfformiad gwell ddim wedi dod yn ystod yr ail hanner, gydag Armenia yn edrych fel y tîm cryfaf. Trawyd y trawst, ac roedd y momentwm yn bendant gydag Armenia. Daeth Brennan Johnson a Daniel James ymlaen i Gymru gyda gobaith y byddai eu cyflymder yn rhoi hwb i'r tîm, ond roedd Cymru dal yn methu manteisio ar gyfleon. Daeth Armenia'n agos iawn at ennill ym munudau olaf y gêm wrth i Danny Ward gael ei orfodi i wneud arbediad. Yn rhwystredig i gefnogwyr Cymru, daeth cic rydd i Gymru tua therfyn y gêm a dim math o frys gan y chwaraewyr i'w chymryd i geisio un cyfle olaf am fuddugoliaeth. Perfformiad siomedig iawn fu hi yn Armenia, a dyna ergyd i obeithion Cymru o gyrraedd Ewro 2024.

I orffen yr ymgyrch, roedd Cymru'n wynebu Twrci yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Roedd yn rhaid i Gymru ennill – a gobeithio na fyddai Croatia yn ennill yn erbyn Armenia – er mwyn cipio'r safle awtomatig olaf yn y grŵp. Roedd tipyn o dasg o'u blaenau – anodd oedd gweld Croatia yn gollwng pwyntiau yn erbyn Armenia hyd yn oed os y byddai Cymru'n llwyddo i ennill yn erbyn Twrci. Cychwynnodd y gêm yn berffaith i Gymru gyda Neco Williams yn sgorio ac yn ein rhoi ar y blaen o fewn saith munud. Roedd yna ddathlu ymysg y cefnogwyr, yn enwedig o wybod fod gêm Croatia ac Armenia yn ddi-sgôr. Ond roedd tipyn o amser i fynd. Parhaodd Cymru i ymosod a cheisio dyblu eu mantais. Fe gafwyd sawl gwaedd am gic o'r smotyn i Gymru ond nid oedd gan y dyfarnwr o Slofenia unrhyw ddiddordeb. Roedd hi'n anodd coelio na chafodd Brennan Johnson gic o'r smotyn wrth i Akaydin ei wthio o'r cefn! Erbyn diwedd yr hanner cyntaf roedd newyddion wedi torri fod Croatia ar y blaen. Nhw felly fyddai'n hawlio'r safle awtomatig olaf os y byddai'r canlyniadau yn aros fel yna ar y chwiban olaf. I wneud pethau'n waeth, yn ystod yr ail hanner fe enillodd Twrci gic o'r smotyn meddal ofnadwy. Roedd hi'n syndod i gredu sut yn y byd oedd Twrci wedi cael cic o'r smotyn am fod Yildiz wedi ei daflu ei hun i'r llawr wrth i Ben Davies frwsio heibio iddo, a doedd sawl tacl gafwyd yn erbyn Cymru'n ddiweddarach ddim yn giciau o'r smotyn! Ond dyna ni bêl-droed: does dim byd yn syml. Sgoriodd Yazici y gic o'r smotyn, ac roedd gobeithion Cymru o ennill y safle awtomatig nawr wedi ei dorri'n deilchion. Roedd Croatia hefyd dal ar y blaen yn eu gêm nhw. Fe driodd Cymru eu gorau i roi pwysau ar Twrci, ond ni ddaeth gôl arall. Daeth y chwiban olaf, a Croatia fyddai'n mynd i Ewro 2024 gyda Twrci.

Mi fydd Cymru'n edrych nôl ar yr ymgyrch hon – ac yn benodol ar gemau mis Mehefin – gydag edifeirwch. Roedd y gêm gartref yn erbyn Armenia ac oddi cartref yn Twrci wir wedi rhoi ergyd i ni. Fe lwyddodd Cymru i ennill 4 pwynt yn erbyn Croatia (tîm a ddaeth yn drydydd yng Nghwpan y Byd y llynedd) ond dim un pwynt a gafwyd o'r ddwy gêm yn erbyn Armenia (tîm oedd ar y pryd yn safle 95 ar restr y byd).

Yn lwcus i Gymru, felly, mae ail-gyfle. Ym mis Mawrth, mi fyddwn yn croesawu'r Ffindir i Stadiwm Dinas Caerdydd ar gyfer rownd gyn-derfynol y gemau ail-gyfle. Yn sicr mi fydd yn fantais i gael gêm gartref, gyda'r Wal Goch y tu cefn i'r tîm. Os enillir y gêm honno mi fyddwn yn herio un ai Gwlad Pŵyl neu Estonia yn y ffeinal, eto yn Stadiwm Dinas Caerdydd. Mae gwaith felly i Gymru; ond mae dal un cyfle arall (wel, dau i fod yn fanwl gywir) i gyrraedd Ewro 2024.

**Mared Rhys Jones**

# Cwpan Criced y Byd



Pan fyddwch chi'n meddwl am griced, dim ond un wlad a ddaw i'r meddwl. India!

Felly, pa le gwell i gynnal Cwpan Criced y Byd yr ICC nag India? Hon oedd y drydedd gwaith ar ddeg i'r twrnamaint gael ei gynnal. Cafodd ei gynnal ar draws y wlad mewn deg gwahanol ddinas.

Am yr ail dwrnamaint yn olynol, dim ond 10 tîm oedd yn y rowndiau terfynol, wedi i 32 tîm gychwyn yn y rowndiau rhagbrofol. Dyma'r tro cyntaf erioed i India'r Gorllewin fethu â chyrraedd Cwpan y Byd.

Roedd 45 gêm i gyd yn rownd y grwp, gyda'r 10 gwlad yn wynebu ei gilydd unwaith. Wedi diwedd y grwp, roedd y 4 uchaf yn mynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol.

Cychwynnodd y twrnamaint gyda'r ddau dîm oedd yn y ffeinal ddiwethaf, Seland Newydd a Lloegr. Sioc oedd gweld y Saeson yn cael crasfa, a'r deiliad yn mynd ymlaen wedyn i gael twrnamaint i'w anghofio. Ond ar y llaw arall, da oedd gweld gwlad fel Afghanistan yn cael twrnamaint cofiadwy.

Yn y rownd gyn-derfynol gyntaf, roedd India yn wynebu Seland Newydd. India yn galw yn gywir ac yn penderfynu batio. Galwad cywir, wrth i Virat Kohli arwain o'r blaen ac India'n sgorio 397 am 4 wiced. Er i Daryl Mitchell daro 134 ym matiad Seland Newydd, doedd hi ddim yn ddigon a chafodd tîm Seland Newydd ei fowlio allan 70 rhediad yn fyr o gyfanswm India.

Yn yr ail rownd gyn-derfynol, Awstralia oedd yn wynebu De Africa, a gêm glos oedd hi. De Affrica'n galw yn gywir ac yn dewis batio, a sgorio cyfanswm o 212. Ond roedd honno'n sgôr teg wedi iddyn nhw fod 24 rhediad am 4 wiced yn fuan yn y batiad. Wrth gwrso, cychwynodd Awstralia ar ras, ond llwyddodd bowlwyr De Africa i gadw'r gêm yn agos. Yn y diwedd, Awstralia'n cyrraedd y nod gyda 16 pêl yn weddill ac felly'n mynd trwodd i'r ffeinal.

Yn y rownd derfynol yn Ahmedabad, Awstralia'n galw yn gywir ac India'n agor y batio. Cafwyd cychwyn cryf, ond wedi colli'r 6ed wiced aeth sgôr India lawr allt, a gorffennodd y tîm cartref y batio ar sgôr o 240.

Felly, 241 oedd y nôd i Awstralia. India'n cychwyn yn dda gyda'r bêl, ac Awstralia 47 rhediad am 3 wiced. Ond dyna oedd y gorau i'r tîm cartref wrth iddi droi'n sioe un dyn gyda Travis Head yn taro 137 oddi ar 120 pêl ac Awstralia'n cyrraedd y nôd yn hawdd gyda 7 pelawd yn weddill. Awstralia yn bencampwyr ac yn cipio'r goron am y 6ed tro, a siom i'r tîm cartref.

Un peth a'm trawodd o wylio dros y chwe wythnos. Ydy hi yn bryd i ni gael tim criced cenedlaethol yng Nghymru? Mae gan nifer o wledydd eraill dimau. Pam na allwn weld y Ddraig Goch ar lwyfan y byd criced? Rhywbeth i feddwl amdano at y dyfodol tybed?

**Elgan Rhys Jones**

# Dal i redeg...

**RASYS CYFNEWID LEE MILLS**

*'Dowch â digon o ddillad cynnes; mae'n fferru yma.'* Dyna'r neges a gafodd y criw o Arfon oedd ar fin cychwyn i Swydd Gaerhirfryn ganol mis Tachwedd i gystadlu yn rasys cyfnewid Lee Mills. Roedd yn oer, yn wlyb socian dan draed a hyd yn oed rannau o'r cwrs wedi rhewi. Ond roedd rhai'n dadlau mai dyma'r amgylchiadau bob blwyddyn, ac nad oedd y diwrnod hwnnw'n ddim gwahanol i'r arfer yno!

Roedd gan Redwyr Eryri dri thîm yn cystadlu mewn tair adran wahanol: Tîm Dynion, Tîm Merched a Thîm Cymysg (yn cynnwys dwy ferch a dau ddyn). Ac er gwaethaf yr amgylchiadau (neu efallai oherwydd yr amgylchiadau) fe ddaeth llwyddiant. Daeth tîm y merched yn fuddugol. Daeth y tîm cymysg yn bumed – ac un o'u haelodau oedd Wil Evans o Lanrug. Daeth tîm y dynion yn wythfed – gyda Lyndon Roberts o'r Ceunant yn aelod. Llongyfarchiadau i bawb am herio'r elfennau unwaith eto eleni.



**Wil Evans**



**Lyndon Roberts**

**RAS ULTRA PEN LLŶN**

Cynhaliwyd ras olaf y flwyddyn yng nghyfres Ultra Pen Llŷn ar ddiwrnod oedd yn ffafriol o ran tywydd – dim glaw na gwynt cryf; amgylchiadau oedd yn cael croeso gan y rhedwyr a fentrodd ar daith o bron ddeugain milltir, gan gychwyn ym Mhwllheli am saith y bore. Dilyn llwybr yr arfordir drwy Lanbedrog a thros Fynydd Tir Cwmwd i Abersoch cyn dringo am Fynytho. Oddi yno, torri ar draws gwlad ar ffyrdd cefn a llwybrau cyhoeddus nes cyrraedd arfordir y gogledd. Dilyn llwybr yr arfordir unwaith yn rhagor drwy Nefyn a Phistyll cyn cyrraedd y traeth yn Nant Gwrtheyrn .... ac yna y dringo! Hwn mae'n siwr oedd rhan fwyaf heriol yr holl ras. Roedd angen dringo o'r traeth, heibio i'r pentref ac i fyny'r ffordd i'r maes parcio, cyn troi i'r chwith ac anelu am y bwlch yn yr Eifl sy'n arwain drosodd am Drefor. Troi yno a disgyn yn ôl i Lithfaen cyn torri ar draws gwlad unwaith yn rhagor ac anelu'n ôl am Bwllheli i orffen yn y Ganolfan Hamdden yno. Roedd ambell unigolyn yn rasio, ond y mwyafrif yn fwy na bodlon i gwblhau'r her mewn amser rhesymol – fesul un, fesul dau neu ddwy, neu hyd yn oed mewn grwpiau o bedwar neu bump. A chwblhawyd yr her gan nifer o'r fro. Roedd Rhian Thomas, Llanrug yn rhedeg gyda'i ffrindiau o Redwyr Eryri; Guto Edwards, Llanrug, Hugh a Fiona Morgan, Bethel, a Renallt Williams o Ddeiniolen yn cwblhau ei ras gyntaf. Da iawn bawb.



**Hugh a Fiona Morgan a Renallt Williams**



**Rhian Thomas**

**RAS HWYL Y NADOLIG**

Ers dechrau'r 1980'au, mae'n draddodiad gan Redwyr Eryri i gynnal ras o amgylch Llyn Padarn yn ystod gwyliau'r Nadolig. Eleni, caiff ei chynnal fore Sul, 17eg o Ragfyr, yn cychwyn am 11.00 y bore. Bydd y cofrestru yng Ngwesty'r Fictoria, a'r tâl fydd £5 i oedolion a £2 i ieuenctid. Bydd paned o dê neu goffi – a mins pei – i bawb ar ddiwedd y ras. Mae croeso i unrhyw un redeg mewn gwisg ffansi, a bydd gwobr i'r wisg orau. Bydd digonedd o wobrau raffl ar gael hefyd. Does dim rhaid bod yn aelod o glwb rhedeg i gystadlu. Croeso cynnes i bawb.



**RAS LLYN LLYDAW**

Ar Ddydd Calan – os bydd dathliadau'r noson cynt yn caniatau – mae croeso i unrhyw un herio'r cwrs o faes parcio Pen Gorffwysfa i fyny am Lyn Llydaw; rhedeg o amgylch y Llyn, ac i lawr yn ôl i'r cychwyn. Ni fydd pawb yn cychwyn gyda'i gilydd, ond rhoddir gwobr i'r amser cyflymaf gan unrhyw redwr. Mae cofrestru'n digwydd yn yr Hostel Ieuenctid, a gellir cychwyn rhedeg ar unrhyw amser rhwng 10 y bore a hanner dydd. Cyfle da i glirio pen cyn wynebu blwyddyn newydd.

**TRAWS-GWLAD**

A hithau'n hanner ffordd drwy'r tymor, mae Rhedwyr Eryri mewn safleoedd cryf yng nghynghreiriau cystadleuaeth traws-gwlad i glybiau gogledd Cymru. Mae tîm y dynion ar frig yr ail adran a thîm y merched yn ail yn yr adran gyntaf. Mae timau'r dynion hŷn a'r merched hŷn yn gyntaf yn eu cynghreiriau.



ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >